CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 278 - 60c
Tachwedd 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Lansio CD Sioe'r Cardis 2010

Tudalen 2

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen 16

Llwyddiant i ferch leol

Tudalen 21

Codi Miloedd o arian at achosion da

Cyflwynodd Cymdeithas Gneifio Llambed siec gwerth £1,200 i Ganolfan y Bont yn ddiweddar. Mae Canolfan y Bont yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu dwys ac awtistiaeth. Cyflwynwyd y siec gan Aled Jenkins, sydd â'i fab Dylan yn ddisgybl yn yr Uned, a gan Sulwyn Jenkins, y ddau ohonynt yn cynrychioli Cneifio Llambed. Derbyniwyd y siec ar ran yr ysgol gan y Pennaeth, Dylan Wyn a Carys Rees a Mary Williams, NNEB. Yn y llun hefyd mae Llyr Jones a Dylan Jenkins sy'n ddisgyblion yn y ganolfan.

Yn y Fishers Arms, Cellan cyflwynwyd siec gwerth £29,500 gan Mrs. Helen Morgan ar ran trefnwyr Dawns Mai (Gofal Bron Llanbed) i Mr. Simon Holt, Ymgynghorydd Oncoleg yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli. Defnyddir yr arian i brynu offer newydd yn Uned Gofal Bron Mr. Holt. Mae'r siec yn cynnwys swm o £1,000 a gyflwynwyd gan Lynda Harries ar ran Banc Lloyds, Cangen Llanbed.

£ £ £

Lucy Jones a Kelvin James yn cyflwyno siec ar ran Clwb Pêl Droed Ieuenctid Llanybydder i Aneurin Davies, cadeirydd cangen leol Ymchwil y Cancr mewn Noson Lawen a gynhaliwyd gan y gangen yn y Llew Du, Llanybydder yn ddiweddar. Hefyd yn y llun mae llywyddion y noson, sef Gerwyn ac Anwen Thomas Llanllwni ynghyd â Gary Jones a Delyth James.

Yn dilyn sioe lwyddiannus yng Nghwmsychbant eleni cyflwynwyd siec am £4,250 gan Lywydd y Sioe, Sara Humphreys-Jones i ddau o aelodau Cyd-Ymatebwyr Cyntaf Gwasanaeth Tân Llandysul. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu cerbyd 4x4 newydd i'r gwasanaeth. Erbyn eleni, mae cyfanswm yr holl elw a rannwyd dros y naw mlynedd ar hugain diwethaf wedi croesi £100,000. Yn y llun (o'r chwith) mae John Jones, Trys; Siân Jones, Ysg; Wendy Jenkins, Ysg; Sara Humphreys-Jones, Llywydd; Kevin Davies a Gary Rees, Cyd-Ymatebwyr Cyntaf a Hefin Jenkins, Cadeirydd.

Bach o bopeth . . . . .

Catrin Davies Llwynifan, Cellan a John Hopkins Ceunant, Pisgah wedi eu priodas yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn Medi 12ed.

Priodwyd Rhian Thomas, Gelliwern Llanybydder a Gethin Jones, Mynachlog Uchaf, Talgarreg ar y 3ydd o Hydref yng Nghapel Aberduar Llanybydder.

Yn Eglwys Llanwenog ar brynhawn braf yr 22ain o Awst dathlwyd priodas Helen Roberts o Madryn, Llanbed a David Rice o Winchester gan y Parchedig W. Fillery. Cynhaliwyd y neithior yng Ngwesty Glynhebog gan ddilyn gydag ychydig ddyddiau ar Ynys Skye. Maent yn byw yng Ngaerwynt (Winchester).

Caryl Sisto, Blaenaerau, Gorsgoch a Christopher Watson o Ben-y-bont ar Ogwr wedi eu priodas yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog ar y 1af o Awst. Dymuna'r ddau ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau.

Cyn-enillwyr y Rhuban Glas mewn Cyngerdd yn Llanbed i lawnsio C-D 'Rhuban Glas y Cardis' at Apêl Sioe'r Cardis, 2010. Yn y llun mae Mrs Jannette Massocchi wrth y piano a gan ddilyn trefn y cloc - Evan Lloyd, Bethan Dudley Fryar, Teifryn Rees, Delyth Hopkins Evans, Gareth Huw John, Rhian Lois, Robyn Lyn Evans, Angela Rogers Davies, Dai Jones, Eirwen Hughes, Carol Davies, Beti George, Ifor Lloyd, ac aelodau'r pwyllgor Cyril Davies, Arwel Jones, Heather Price a Nicola Davies.



Gethin a Siân Jones, Cwmann yn gorffen y ras a redwyd er budd ymchwil Motor Neurone.

Shan, Tracy, Mark ac Alan o Lanwnnen a Llanllwni a fu'n rhedeg er budd Ffagl Gobaith yng Nghaerdydd.

Nia Wyn, Silian a Gemma Hope o Gwmann a fu'n rhedeg yr hanner marathon yng Nghaerdydd.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Tachwedd:	Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca	480526
Rhagfyr:	Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin	01545 571234
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffwyr	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
	Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann	421173
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cofio

Rwy'n hoff o'r rhaglen 'Cofio' gan John Hardy ar fore Sadwrn. Wrth ymdrin â chrefydd soniodd un am ateb y drws yn blentyn a dweud wrth ei rhieni fod Iesu Grist yno. Daeth digwyddiad i'm cof am un Sadwrn wrth i blant Ysgol y Dolau gerdded i Lanybydder i siopa. Un o'r bechgyn yn mynd at yr athro ac yn dweud "Mr Williams, rwy wedi gweld Iesu Grist". "Ble?" meddai'r athro. "Dewch da fi." Ac fe arweiniwyd yr athro i'r man ble roedd Dennis Jones yn ddiwyd yn rhoi ysgrif ar garreg fedd. Roedd gan Dennis farf ddiogel y pryd hynny. "Dim Iesu Grist yw hwnna," meddai'r athro, "ond Dennis Jones." "O, o'n ni'n meddwl nage fe," meddai'r bachgen, "pan weles i fe'n dod ar fotorbeic!" Lwcus nad oedd asyn yn y cae cyfagos neu fe fyddai gwaith darbwyllo ar y crwt. Malcolm Williams, y diweddar erbyn hyn, oedd yr athro a beth tybed yw hanes y bachgen, Gerald? Fe hoffwn i wybod.

Gofid

Fel un sydd wedi bod yn llywodraethwr ar yr Ysgol Uwchradd ers blynyddoedd, mae'r "Bartneriaeth Dysgu 14 – 19" yn creu llawer o ofid i ni. Mae'r ddogfen o'm blaen yn ddigon i lanw Siprys am y ddegawd nesaf. Yn fras, cynnig mwy o gyfleoedd i'r disgyblion yw un nod, arbed arian yw'r nod arall. Brawddeg sy'n gofidio pawb yw'r un sy'n dweud "Gweithio tuag at gael gwared ar ddyblygu (duplicate) cyrsiau". Mae'r frawddeg hon yn swnio yn bell-gyrhaeddol ofnadwy. Ydy hi'n golygu pob cwrs, neu rai cyrsiau? Ai un ysgol yn unig yng Ngheredigion yn dysgu un pwnc, neu un ysgol mewn clwstwr, dyweder, o dair ysgol? Y gofid mwyaf yw'r amser a'r costau. Gobeithio y bydd pwy bynnag sy'n gorfod gwneud y penderfyniad â map manwl o Geredigion o'u blaenau gyda'r pellter rhwng pob canolfan, yr amser teithio, a chostau cludiant o le i le mewn llythrennau bras uwchben y cyfan. Gobeithio na wireddir brawddeg o'r Hen Destament sy'n sôn am gloddio pydewau newydd a'r frawddeg sy'n dilyn "y rhai na ddaliasant ddŵr." Gobeithio yn wir fod synnwyr cyffredin yn mynd i lywio pob penderfyniad.

Blong

Oes mae na ragor o fanylion parthed 'Timothy Blong' yn dod i'r golwg o hyd. Yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf, fe ddeallir mai cyfenw Ffrangeg yw Blong a bod y teulu wedi sefydlu yng Nghaint. Credir mai siom mewn cariad oedd y rheswm pam fod Timothy wedi dod i'r ardal. (Cofiwn am Dafydd Gwallt Hir a oedd wedi mynd i grwydro am yr un rheswm). Byddai Timothy yn cerdded i Gaint rhyw unwaith y flwyddyn i ymweld â'i deulu. Pan aed ag ef o Cwmnant Hall, Drefach i Aberystwyth, oherwydd salwch, deallir ei fod wedi cael gwellhad a'i fod i'w weld yn cerdded strydoedd Aberystwyth mewn gwisg ddigon trwsiadus. Ceisiodd un a oedd yn fyfyriwr yn y coleg o Gwrtnewydd dynnu sgwrs ag ef, ond roedd yn rhy swil i ymateb.

Diolch i'r holl gyfranwyr, a chofiwch fod lle i ragor ohonoch gofnodi atgofion am gymeriadau eich ardal. Mae'n faes eang ac yn faes diddorol – croniclwch e cyn i'r cyfan fynd yn angof.

Hwyl! Cloncyn.

Halen y Ddaear i Sara

Halen y Ddaear

Nos Iau, 8fed o Hydref daeth tua 70 o ffrindiau a pherthnasau i westy y Llew Du yn Llanybydder i estyn diolch i Mrs Sara Humhreys Jones, Frongelli. Ieuan, gynt o Siop y Siswrn Aur oedd y 'culprit' a oedd wedi paratoi'r noson o ddiolch i Sara am ei gwaith yn y Gymuned, yn helpu pob elusen ar y ddaear ac yn helpu yn Siop Tenovus yn Llambed a'r NSPCC yn Llanybydder. Cawsom ein diddanu gan Leisiau'r Werin.

Dyma benillion a ysgrifennwyd gan Mrs Llinos Davies, Llwynfedw, Llanybydder.

I Sara
08.10.09

Wedi casglu at ein gilydd
Yma i westy y Llew Du,
Er mwyn anrhydeddu heno
Gwraig arbennig iawn i ni.

Ieuan a wnaeth drefnu'r noson
Alwyn Humphreys ddaeth am dro,
I gyflwyno rhodd i Sara
Halen y Ddaear yn ein bro.

Os yr ewch chi i Frongelli
Fe gewch groeso llond y lle,
Sgwrs gyfeillgar gyda Sara
Dros gwpanaid bach o de.

Ond ni ddewch chi oddi yno
Y mae hynny'n eitha gwir,
Cyn gwnewch brynu ticed raffl
At ryw achos yn y Sir.

Cefnogol iawn i elusennau
Fel Tenovus y mae hi,
Heb anghofio ei chyfraniad
Mawr i'r NSPCC.

Y mae Sara'n helpu pob un
Nansi, Janet a'r teulu i gyd,
Heb anghofio defaid Eirwyn,
Sy'n cael gofal gorau'r byd.

Mynd yn aml wna at Teifi
Gyda'r bws lawr i Gaerdydd,
A thra bydd yno'n aros
Golchi, smwddio'n brysur fydd.

Helpu eraill boed yn perthyn
Neu yn ffrindiau fydd o hyd,
A thrigolion Alltyblaca
Sydd yn dyst o hyn i gyd.

Capel Newydd Abergorlech
Sy'n agos at ei chalon hi,
Bu'n 'sgrifennydd yr Eisteddfod
Am flynyddoedd yn ddi-ri.

Mae 'na flodau yn Frongelli
Ym mhob cornel, siŵr i'w gweld,
Garej, sied, yr ardd a'r beudy,
Ac ambell gwpan ar y seld.

Mae 'na un sy'n byw 'Mhencader
Heno'n methu bod 'da ni
Am fod henaint ac anhwylder
Bellach yn ei rhwystro hi.

Ond mae'n danfon ei chyfarchion
Gyda phob dymuniad da,
Cewch chi Sara iechyd eto
I barhau â'r holl waith da.

Yma heno gyda'n gilydd
Eich llongyarch wnawn yn llon,
Nid oes neb yn fwy haeddiannol
O'r anrhydedd bwysig hon.

Halen y Ddaear, ie'n bendant
Ydyw Sara'n siŵr gen i
Ac rwy'n teimlo'n falch ofnadwy
'Mod i'n perthyn iddi hi.

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Llanybydder, Prysgybyddar a Preseli

Mae'r ffurf gynharaf ar yr enw Llanybydder yn digwydd yn 1391 a'r ffurf honno yw 'Thlanebetheir'. Digwydd 'Llan y byddair' yn ddiweddar yn y 15fed ganrif a 'Llanybydder' yn 1535. Y ffurf safonol ar enw'r pentref yw honno a arddelir gan yr awdurdod lleol a'r Arolwg Ordnans sef Llanybydder.

Mae tuedd i gysylltu'r elfen 'byddair' â'r gair 'byddar' sy'n dynodi, fel rheol, ddiffyg ar y clyw. Ond does dim tystiolaeth na thraddodiad o gwbl wedi'i gadw sy'n sôn am eglwyswyr byddar. Byddai'n bosibl, sut bynnag, ddadlau fod 'byddar' yn cyfeirio at lecyn tawel, llonydd, tangnefeddus. Ac mae'n rhaid cofio bod cyfeiriadau at leoliad arall ger y pentref sy'n cynnwys yr elfen 'byddar', sef Prysg y Byddair neu Prysg y Byddar. Yn 1718 sonnir am 'Gwar y Graig or Prisk y Bythar'; yn 1722 y ffurf oedd Priskybyddar. Bellach aeth Gwar y Graig yn Gwargraig a diflannodd yr enw Prysgybyddar. Ond ceir cyfeiriad cynharach o lawer yng nghofnodion yr Archifau Gwladol sy'n sôn yn 1599 am 'Tir prysk y byddeir ycha' ac am 'Tir prysk y byddeir issa'. Dyma gartref bardd o'r enw Ieuan bol ap Ieuan ap Rhys. Mae'r elfen 'byddar' yn digwydd mewn amryw enwau lleoedd: ceir Llwynybyddar ym Maenordeifi; Nant Cwm Byddar yn Ystradgynlais; y Crugbyddar neu Crugybyddar (1304) yn Bugeildy a Cilybyddar eto ym Mhowys. Ond i ddychwelyd at y ffurf Prysgybyddar ... clwstwr o goed a ddynodir gan 'prysg' ac mae'n digwydd yn gyffredin mewn enwau lleoedd a chaeau drwy'r ardal hon ac ar draws Cymru. Ceir Prysg yr Afar (1642) a Cae'n y Prysg (1599) yn Pencarreg; mae Pen Prysg yn Llanllwni ac yn Silian; Castell Prysg yn Llanllwni. Ceir Prysg melyn (1598) yn Llansawel; Prysglwyn melyn (1614) yng Nghaeo. Amrywiad ar 'prysg' yw 'prys' ac mae sôn am Prysgynwydd (1718) yn Llanwenog; mae'r ail elfen 'cynwydd' yn cyfeirio at gynnud neu goed tân. Ceir yr un elfen hefyd yn yr enw Prysor. Amrywiad arall ar 'prysg' a 'prys' yw 'pres' a dyna'r ffurf a geir yn Presgoed - yr enw ar y carchar yn Sir Fynwy - ac yn Preseli sy'n cynnwys 'pres' a'r enw personol Selyf. Cymreigiad o'r Lladin Salomon yw Selyf ac amrywiadau ar yr enw yw Selef, Seleu. Collwyd yr –f ar ddiwedd Selyf a'n gadael â Presely a Preseli.

Datblygodd y ffurf Preselau dan y dybiaeth mai enw lluosog yn '–au' oedd 'pres + seleu' gan fod yr enw'n cyfeirio at amryw fryniau.

Llan-y-crwys - Mae 'crwys' yn digwydd yn gyffredin yn elfen mewn enwau lleoedd yn ne Cymru: ceir Pant-y-crwys ym Mhencarreg a Parc-y-crwys yn Lacharn. Mae Afon Crwys ym Mhencader. Yng Ngheredigion, mae Llan-crwys ac Esgair-crwys yn Llanddewibrefi a cheir Bwlch-y-crwys yn Llanfihangel y Creuddyn ac ym Mhenbryn.

Mae'r enw Llan-y-crwys yn Sir Gaerfyrddin yn hynafol ac yn digwydd am y waith gyntaf yn 1291. Y ffurf lawnaf ar enw'r gymuned yw Llanddewi'r Crwys ac mae'r eglwys yno wedi'i chysegru i Ddewi. Mae'r enw 'crwys' wedi'i fenthyca o'r Lladin 'crux'. Er mai enw unigol yw 'crux', gall 'crwys' fod naill ai'n enw unigol neu'n enw lluosog.

Lluosog arferol 'croes' yn ein hiaith ni erbyn hyn yw 'croesau', ond ffurf gymharol ddiweddar yw honno.

Pan yw 'crwys' felly yn digwydd yn elfen mewn enwau lleoedd, mae'n anodd penderfynu ai enw unigol ynteu enw lluosog sydd gennym - oni bai bod ryw dystiolaeth atodol. Mae'r dystiolaeth atodol sydd ei hangen ar gael yn achos Y Crwys ger Penclawdd yn Sir Forgannwg oherwydd y ffurf Saesneg ar yr enw o ddechrau'r ddeunawfed ganrif ymlaen yw 'the three crosses'.

Yn achos Llan-y-crwys, Sir Gaerfyrddin, mae'r sefyllfa'n fwy dyrys gan fod y ffurfiau Llan-y-croes a Llanycroese hefyd yn digwydd yn ffurfiau amrywiol ar Llan-y-crwys. Digwydd yr enwau Carreg Tair Croes, Carreg Crwys, Esgair y Crwys ac Allt Esgair Crwys hefyd gerllaw Llan-y-crwys.

Anodd penderfynu yn achos Llan-y-crwys a oes cysylltiad rhwng yr enw Llan-y-crwys â chroes neu groesau min y ffordd, arwyddluniau Cristnogol, neu a yw'n cyfeirio at groes a ddefnyddid i ddynodi ffin tir. Mae Llan-y-crwys yn enw sy'n digwydd, yn ogystal, ger Llangamarch yn Sir Frycheiniog.

Y tro nesaf bydd cyfle i ystyried dylanwad y Beibl ar rai enwau lleoedd lleol.

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn

Mae'r penderfyniad i gefnogi Ysgol Gynradd Caeo wedi'i groesawu gan y gymuned gyfan yng ngogledd Sir Gaerfyrddin. Roedd y llywodraethwyr, y rhieni, a'r staff yn arbennig o falch o glywed am y newid agwedd ar ôl cyfnod maith o ansicrwydd yr oedd Ieuan Goronwy Jones, cyn-ddeiliad y portffolio addysg ar Fwrdd Gweithredol Sir Gâr, yn uniongyrchol gyfrifol amdano. Efallai ichi gofio iddo gael ei fflipio o'r swydd hon wedi i Ms Meryl sylweddoli ei fod wedi colli ei hygrededd yn llwyr ymysg y gymuned addysgol a'r trethdalwyr yn Sir Gâr. Mae'n dal yn is-gadeirydd, ond ystyrier holl warth y fflipio: cael eich sbaddu gan y Politbiwro yn y bore a gweld eich polisïau ar ysgolion gwledig wedi'u gwyrdroi gan yr un corff cyn cinio. Proffwydoliaeth Pryfyn yw na chlywir rhagor amdano.

Dywedodd y Cynghorydd Sir lleol, Eirwyn Williams, 'Dwi'n llongyfarch Bwrdd Gweithredol y cyngor am sylweddoli o'r diwedd ei bod yn gamgymeriad cau ysgolion bach cyn adeiladu'r ysgolion newydd. Dyma bwynt dwi wedi bod yn ei godi ers blynyddoedd. Mae'n gwbl annerbyniol gwasgaru plant dros nifer o ysgolion eraill, yn hytrach na rhoi cyfle iddynt ddatblygu fel aelodau'r un gymuned. Gobeithio y bydd yr awdurdod bellach yn mynd ati i ddarparu ysgol newydd i'r ardal, ac y bydd yr adran addysg yn rhoi'r holl gymorth angenrheidiol i'r ysgol barhau i ddarparu addysg o safon uchel i'r plant.'

Nododd Eirwyn hefyd fod y penderfyniad yn gyson â'r hyn y mae cynghorwyr y Blaid wedi bod yn galw amdano ers misoedd, 'Rydym wedi dadlau'n gyson am foratoriwm ar gau ysgolion bach, ac, yn yr achos hwn, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi gwneud y penderfyniad iawn.'

A dyma her fawr arall y bydd rhaid i'r Cyngor ei wynebu yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf: diogelu addysg gynradd ar draws Sir Gâr. Ond nid mater o drefniadaeth addysgol yn unig yw hi bellach: mae'r holl fater ynghlwm wrth nifer o bynciau eraill mae'r Cyngor wedi methu mynd i'r afael â nhw hyd yma, gan gynnwys tai fforddiadwy.

Yn Lloegr disgwylir i dros 200 o ysgolion gau erbyn 2014 sef un ysgol yr wythnos ar gyfartaledd. A'r rheswm a roir am hynny yw bod teuluoedd yn gorfod symud o'u cynefin i gael hyd i gartrefi fforddiadwy.

A dyna'r union sefyllfa yng ngogledd Sir Gaerfyrddin. Nid yw cyfartaledd cyflogau yn y rhan hon o'r byd yn caniatáu i deulu ifanc godi morgais derbyniol. Dywed gwerthwyr tai lleol fod tai dan £120,000 yn brin eithriadol. Y canlyniad yw bod teuluoedd ifanc yn methu â fforddio prynu eu cartref cyntaf yn lleol ac yn gorfod symud o'u cynefin. Yr ysgol, y siop a'r dafarn leol sy'n dioddef y sgil effeithiau. Mae'r broblem yn weladwy ar drothwy ein drws ni ein hunain – yng Nghapel Dewi, Llandysul.

Yn Sir Gâr mae llygedyn bach o obaith o bosibl. Penodwyd galluogydd tai gwledig yn ddiweddar. Ei phrif ddyletswydd yw ceisio galluogi ieuenctid ein cymunedau i rentu neu brynu tai y maen nhw'n gallu eu fforddio. Mae'n gyfrifoldeb aruthrol o ran holl strwythur cymdeithasol ac economaidd y sir. Hyd y dealla Pryfyn, cafodd y swyddog newydd dderbyniad brwdfrydig gan gynghorau bro gogledd Sir Gâr. Edrychwn ymlaen at drafod yr argymhellion a gweld gweithredu buan arnyn nhw gan y Cyngor Sir.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

TACHWEDD

5 Cyfarfodydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Noddfa, Llambed.
6 Cyngerdd Eisteddfod C.Ff.I Llanwenog yng Nghanolfan Gymunedol Llanybydder am 7:30 y.h. Croeso i bawb.
11 Stondin Gacennau Cylch Gwenog tu allan i'r ysgol – 8.30 y.b.
15 Oedfa Sul yr Urdd yn Noddfa, Llambed am 5 o'r gloch.
20 Diwrnod Plant Mewn Angen. Casglu fel arfer yn Llambed rhwn 9 a 6:30y.h.
21 Cyngerdd gydag Aled Edwards, Cilycwm a Chôr Tŷ Tawe o dan arweiniad Helen Gibbon yn Neuadd Bro Fana am 7.30y.h.
23 Derbyn newyddion CLONC ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr.
24 Arddangosfa Goginio gan Sirian Davies yn Festri Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
28 Arwerthiant blynyddol Seion, Cwrtnewydd am 3:00 y.p. Agorir gan Ernie a Betty Hatcher, Coedfryn, Pontsian.
28 Cylch Meithrin Llanllwni yn cynnal 'Ffair Aeaf', yn Neuadd Gymunedol Llanllwni.
28 Cic-danio'r Nadolig yn Neuadd Fwyd Lloyd Thomas Coleg Llambed. Elw at Apêl Nyrs Calon Ceredigion, Sefydliad y Galon.
27 - 28 Ffair Grefftau ac Arddangosfa Flynyddol yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Raffl at Gancr y Fron Cymru. Te a choffi. Dewch i gefnogi crefftwyr lleol. Gwener 2 - 7 a Sadwrn 10 - 4.
29 Ras Y Mast gan Glwb Rhedeg Sarn Helen o ganolfan gwyliau Blaenwern Llanybydder. Ras plant 12.30yp ac oedolion 1 o'r gloch.

RHAGFYR

4 Ffair Nadolig Ysgol Llanwnnen yn Neuadd yr Eglwys am 7y.h.
6 Cymanfa Ganu Brenhines a Ffarmwr Ifanc C.Ff.I. Ceredigion yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7:30y.h.
6 Gwasanaeth Garolau C.Ff.I. Cwmann yng Nghapel Brondeifi.
17 Dartiau Twrci C.Ff.I Llanwenog yn Nhafarn Gorsgoch am 7:30 y.h. Croeso i bawb.
19 'Carol, Cerdd a Chân' yn Eglwys Sant Pedr, Llambed am 7y.h. Yr elw tuag at Gymorth Cristnogol.
19 Sioe Cyw, S4C yn Theatr y Gromlech, Crymych. Tocyn £3.
26 Taith flynyddol Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg. Cwrdd ym Motor World Cwmann am 10y.b. Arweinydd y daith - Eric Williams.
29 Dawns Brenhines a Ffarmwr Ifanc C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

IONAWR 2010

7 Sosial noson agoriadol, Neuadd St Iago, Cwmann.
25 Derbyn newyddion CLONC ar gyfer rhifyn mis Chwefror.
29 Cwis Eisteddfod 2010 yn ardal Llambed.

CHWEFROR

15-19 Wythnos Adloniant C.Ff.I. Ceredigion.
22 Derbyn newyddion CLONC ar gyfer rhifyn mis Mawrth.
25 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed yn Ysgol Gyfun Llambed.

Gorsgoch

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch capel Bryn-hafod yn ddiweddar. Braf oedd gweld plant a phobl ifanc y pentref yn cymryd rhan. Cafwyd gwledd flasus yn y festri ar ôl y gwasanaeth, lle cafodd pawb gyfle i gymdeithasu ac i sgwrsio. Roedd y capel yn lliwgar, ac yn llawn ffrwythau, llysiau a blodau o bob math, a rhoddwyd y nwyddau yma i Gartref Maes y Felin, Drefach. Dyma lun rhai o'r plant gyda Getta a Dai.

Colofn y C.Ff.I.

Llongyfarchiadau

Hoffai'r Sir longyfarch Enfys Evans ar gael ei hethol yn Is-Gadeirydd C.Ff.I. Cymru ac i Meira Lloyd ar gael ei hethol yn arweinydd Fforwm Ieuenctid C.Ff.I. Cymru. Pob lwc i'r ddwy!

Cystadlaethau Hoci

Bu merched Clwb Pontsian a Buddug Lloyd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Hoci 7 bob ochr yn Stafford ar yr 11eg o Hydref. Llongyfarchiadau iddynt am ddod yn ail.

Pwyllgor Blynyddol y Sir

Cafodd Glyn Davies, Lloyd Jack, Felinfach ei ethol yn Llywydd y Sir a Bronwen Morgan, Bwlchllan, ei hethol yn Is-Lywydd y Sir. Etholwyd Arwel Jones, Fronwen Isaf, Llanarth yn Gadeirydd ac Alwen Jones, Ciliau Aeron yn is-gadeirydd y Sir. Siaradwr gwadd y noson oedd Deryc Rees, Llangynnwr.

Hefyd cyhoeddwyd mai Lledrod oedd enillwyr cwpan y cynnydd mwyaf mewn aelodaeth ar gyfer y flwyddyn 08-09.

Chwaraeon Dan Do

Cafodd cystadlaethau chwaraeon dan do eleni eu cynnal yn Neuadd Llanddewi Brefi ar y 25ain o Fedi. Cafwyd noson fyrlymus a llawn hwyl gyda nifer fawr o aelodau'r Sir yn cymryd rhan yn y gwahanol feysydd. Canlyniad Terfynol- 1af- Felinfach, 2il – Pontsian a Llanwenog.

Siarad Cyhoeddus Saesneg

Cafwyd dwy noson safonol o siarad cyhoeddus Saesneg yng Ngholeg Felinfach ar y 1af a'r 2il o Hydref. Y beirniad oedd Ms Wendy Crockett (Darllen), Miss Eirlys Lloyd (Dan 16), Mr David Davies (Seiat Holi) a Mrs Gay Evans (Dadl).

Canlyniadau - **Dan 14 oed** - Cadeirydd Gorau a'r Darllenydd Gorau: Bethan Green, Caerwedros. Canlyniad Tîm: 1af Caerwedros A, 2il Llanwenog B, 3ydd Dihewyd **Dan 16 oed -** Cadeirydd Gorau: Morgan Davies, Mydroilyn. Siaradwr Gorau: Sian Downes, Llangeitho . Diolchydd Gorau: Heini Phillips, Llangeitho Canlyniad Tîm: 1af Llangeitho A , 2il Llangeitho B, 3ydd Pontsian a Chaerwedros. **Dan 21 oed -** Cadeirydd Gorau: Enfys Hatcher, Llanwenog. Siaradwr Gorau: Catrin Jones, Mydroilyn. Canlyniad Tîm: 1af Llanwenog , 2il Pontsian , 3ydd Mydroilyn **Dan 26 oed -** Cadeirydd Gorau: Lyn Jenkins, Llanwenog. Siaradwr Gorau: Hannah Parr, Llangeitho. Canlyniad Tîm: 1af Llangeitho, 2il Pontsian A , 3ydd Pontsian B . Canlyniad Terfynol: 1af Llanwenog, 2il Pontsian, 3ydd Llangeitho

Diolch i'r holl feirniaid a'r hyfforddwyr am eu gwaith trwyadl a phob lwc i'r aelodau a fydd yn cynrychioli Cymru yn Llanelwedd ar y 5ed a'r 6ed o Fawrth, 2010.

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Teithiodd rhai o aelodau Ceredigion i Fachynlleth ar y 4ydd o Hydref ar gyfer bod yn rhan o'r rhaglen deledu Dechrau Canu, Dechrau Canmol. Arweinydd y noson oedd Magwen Pughe.

C.Ff.I Ceredigion – Dathlu 70 mlynedd

Mae'r Sir yn dathlu 70 mlynedd yn 2011 ac felly bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn penodi digwyddiadau i ddathlu. Bydd y pwyllgor yn cwrdd nesaf ar y 25ain o Dachwedd am 7:30 y.h. yn Nhafarn Vale, Felinfach. Mae croeso i bawb gan gynnwys aelodau, swyddogion, cyn aelodau/swyddogion a ffrindiau'r mudiad. Os oes gennych unrhyw hen luniau/video/DVD neu wybodaeth gyffredinol, cysylltwch â Mared neu Ann yn y swyddfa ar 01545 571 333 neu e-bostiwch ar ceredigion@yfc-wales.org.uk.

Clwb 200

Dyma enillwyr clwb 200 mis Hydref: Ifan ac Ann Jones, Pant, Llanddewi Brefi; Huw ac Ann Tudor, Tynberllan, Llanilar; Huw ac Angharad Williams, Ael y Bryn, Llanon

Rhagrybudd o ddigwyddiadau'r Sir

Tachwedd 9 - Cwis Iau'r Sir
Tachwedd 16 - Hyfforddiant Barnu Carcas
Tachwedd 26 - Cwis y Sir
Tachwedd 21 – Eisteddfod C.Ff.I. Cymru, Venue, Llandudno
Tachwedd 22 - Hyfforddiant Barnu Trimio Wyn
Tachwedd 25 – Pwyllgor Dathlu 70 – Tafarn Vale, Felinfach
Tachwedd 26 - Cwis y Sir
Tachwedd 30 a Rhagfyr 1 – Ffair Aeaf, Llanelwedd
Rhagfyr 6 – Cymanfa'r Frenhines, Capel y Groes, Llanwnnen
Rhagfyr 29 – Dawns y Frenhines – Pafiliwn Pontrhydfendigaid

Dydd Sul y Cofio
08.11.09

O'r Cynghorau Bro

Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: D Jones, Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies

Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Gorffennaf 2009. Nodwyd bod caniatâd cynllunio wedi ei roi i adeiladu tri annedd ar dir Tŷ Gwyn, Llangybi ac ar gyfer annedd a charafan ger Haulfryn ym Mhontcreuddyn.

Derbyniwyd gwybodaeth y bydd yr heol ger Gorwydd yn Llanddewi ar gau rhwng 10fed o Awst a 31ain o Awst a'r heol o Lanfair i Langybi rhwng 7fed o Fedi hyd 5ed o Hydref.

Derbyniwyd llythyr yn nodi bod cymorth ar gael er mwyn gallu derbyn teledu digidol.

Diolchwyd i Mr a Mrs Graham Williams am eu gwaith yn gofalu ac yn gwella'r amgylchedd yn enwedig yng nghyffiniau Capel Cilgwyn ac i'r ddwy wraig fu yn glanhau cysgodfannau'r bysiau.

Penderfynwyd gadael penodi llywodraethwyr i Ysgol Y Dderi hyd y cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd llythyr yn mynegi pryder am y sibrydion am gynlluniau honedig yn ymwneud â pharcio ger Ysgol Y Dderi.

Derbyniwyd cwyn bod rhai trigolion yn rhoddi eu sbwriel allan ar nos Lun ac erbyn dydd Mawrth, diwrnod y casglu, mae'r sbwriel wedi'i wasgaru.

Roedd y trailer ger Maslyn yn peri gofid.

Derbyniwyd holiadur am gyfrifoldeb perchnogion cŵn. Mae'r broblem wedi gwella ond yn dal i achosi trafferth mewn rhai mannau.

Derbyniwyd holiadur oddi wrth 'Defo' i'w ateb ar y we.

Etholwyd y Cyng. Keith Edwards yn Is-Gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans

Cyfarfu'r Cyngor ar 14 Medi 2009

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn Neuadd Gymunedol y pentref. Croesawyd y Cwnstabl Rhydian Jones a bu sôn am y cyrch cyffuriau diweddar yn y pentref. Cynhelir cyfarfod ym Mhafiliwn Pencader 4 Tachwedd 2009 i rieni a phlant 14 oed i egluro peryglon cyffuriau yn gyffredinol. Roedd pentref Llanllwni wedi bod yn gymharol dawel wedyn heblaw am y traffig a oedd yn mynd i'r fferm wynt yn Alltwalis. Awgrymwyd y gallai'r heddlu gael cyswllt ar wefan y plwyf a chytunwyd i hynny gan Rhydian Jones. Roedd y clawdd ar ben heol Pontdulais Cottage yn derbyn sylw.

Cafwyd cadarnhad bod y Cynghorwyr yn archwilio cyflwr y maes chwarae a'r adnoddau yno yn rheolaidd. Mae'r cyngor yn dal i aros am gyfarwyddyd oddi wrth Un Llais Cymru am y cae sydd i'w drosglwyddo gan yr ymddiriedolwyr presennol i ofal y Cyngor Bro.

Mae'r cais am y datblygiad arfaethedig ger Ty-gwyn wedi ei ganiatáu.

Gwnaed cais am ddatblygiad ger Brithdir.

Penderfynwyd peidio â darparu golau ychwanegol ger Bryndulais.

Bydd Llwybrau Cyhoeddus y plwyf dan ofal y Cyngor Sir yn y dyfodol.

Eglurwyd y byddai arian o'r grant Addasiadau yng Nghefn Gwlad yn darparu bws cymunedol i bentrefi'r ardal.

Derbyniwyd gwybodaeth am brosiect cyffrous ac uchelgeisiol, sef Tywi Afon yr Oesoedd.

Derbyniwyd gwybodaeth mai 'Fferm Wynt Alltwalis' fydd yr enw ar safle'r melinau gwynt yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Tachwedd 2009 ym Neuadd Gymunedol Llanllwni.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON
ADDDIAD LLANYBYDDER / LLANBEDR PONT STEFFAN

Sadwrn 28 Tachwedd 2009 am 7.00y.h.
Cic-gychwyn i'r Nadolig
Gwin Poeth a Paté
Llywydd: Y Cyng. & Mrs Selwyn Walters,
Y Maer a'r Faeres
MC: Mr Gwyndaf Tobias
Arddangosfeydd Blodau, Coginio, Ffasiwn, Pacio parseli erbyn y Nadolig
Côr Cwmann
Rhaglen £15-00
ar gael yn: duet, Cascade neu ffoniwch Aneurin a Sallie ar 01570 422099
Yn Neuadd Fwyd Lloyd Thomas
Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan
Elw tuag at BHF Apêl Nyrs Calon Ceredigion
Registered Charity No. 225971

Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Eiddyg Jones, Clerc: Eric Williams, Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes

Cyfarfu'r Cyngor ar 5 Hydref 2009. Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle brys gyda syrfewr y Sir, y cynghorydd Sir, a pherchen y tir o amgylch yr heol i gaer Gelliddewi. Nid yw'r heol yn ddigon llydan i beiriannau ffermio modern ac mae'r cloddiau a wyneb y ffordd mewn cyflwr trychinebus.

Mae'r clerc i ysgrifennu i gwyno am gyflwr y cysgodfeydd bws; mae eisiau chwynnu o amgylch y cysgodfannau a glanhau'r ffenestri.

Hoffai'r aelodau i swyddog o'r Heddlu fynychu rai o'n cyfarfodydd misol fel yr arferid gwneud yn y gorffennol.

Rhoddwyd ganiatâd i Sefydliad y Merched Coedmor blannu coeden fytholwyrdd yn yr Ardd Goffa i ddathlu pen blwydd diemwnt y Gangen, a gofyn iddynt osod plac ger y goeden i ddynodi'r achlysur.

Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio fel arfer am 10.45 ddydd Sul yr 8fed o Dachwedd ger y Gofgolofn.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Selwyn Walters, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Medi 2009 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer ac offrymwyd gweddi gan y Cyng. Kistiah Ramaya.

Nododd yr Arolygydd Nicola Carter y byddai'n gadael yr ardal ac yn derbyn cyfrifoldeb am hyfforddiant ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin. Byddai'r Arolygydd (Dros Dro) Paul Bonning yn derbyn ei chyfrifoldebau hi. Nodwyd hefyd nifer o newidiadau eraill yn nhrefn plismona'r ardal.

Ystyriwyd yr anawsterau parcio yn y dref. Roedd gobaith gweld gwella'r mynediad i gerbydau trwm ym maes parcio'r Rookery a'r drefn ar gyfer cyfnod parcio penodedig ar Y Cwmins. Nid oedd yr anawsterau a brofwyd ar Heol y Gogledd, Heol y Bryn a Mountwalk wedi eu datrys hyd yma.

Trefnwyd ymweld â'r Ysgol Uwchradd ar 28 Medi am 4.00.

Penderfynwyd holi am dendrau i ddarparu gwefan newydd ar gyfer Cyngor y Dref,

Roedd aelodau o'r Cyngor wedi bod yn ystyried adnoddau Parc-yr-Orsedd ac yn paratoi adroddiad ar y sefyllfa. Roedd y gwaith ar Faes-y-deri yn symud yn ei flaen yn foddhaol.

Penderfynwyd holi a fyddai modd i'r Cyngor gwrdd mewn ysgol leol yn ddi-dâl.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas; Clerc: Wenella Evans; Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 20 Hydref 2009

Cynhelir Noson Agored yng nghwmni Mr Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion ar 17.11.09 yn Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30y.h. i drafod tai fforddiadwy. Croeso i bawb.

Mae cysgodfan a sedd wedi'u difrodi yn ystod y mis yng Nghwrtnewydd. Nid yw'n bosib cywiro'r sedd ac felly penderfynwyd cael un fetel yn ei lle. Trafodwyd y posibilrwydd o roi cysgodfan tu allan i dai cyngor Heol y Bryn gan mai fan hynny mae'r plant yn dal y bws i'r ysgol.

Cwblhawyd y gwaith o lanhau gwely'r afon ym mhentref Cwrtnewydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae aelodau'r cyngor wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd gwahanol yn ystod y mis. Penderfynwyd ar gyfraniad i'r canlynol: Ambiwlans Awyr

Agor y Co-op ar ei newydd wedd gyda'r Rheolwr, Mike Savory a chynrychiolwyr o blith y staff. Yn eu helpu i dorri'r rhuban mae disgyblion o Ffynnonbedr a Charreghirfaen - Rhiannon Davies, Aarifah Anwer Lala, Julianna Barker, Scott Davies, Liam Davies a Sophia Barker.

Cwmsychpant

Elwyn a Mair Thomas yn derbyn rhodd gan y Parch Wyn Thomas ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Marian a Emyr Rees, Caeronnen ar enedigaeth eu trydydd merch, Glesni, ddiwedd mis Medi. Chwaer fach i Lleucu a Lowri

Wyres fach

Dymuniadau gorau i Eirwyn a Mary Davies, Maesnewydd ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto – ganwyd merch fach, Megan Fflur, i Marian a Huw yn Nrefach.

Capel y Cwm
Bedydd

Yn ystod y mis bedyddiwyd Efa Fflur, merch Elin a Marc Evans o Gaerdydd. Hyfryd oedd gweld cynifer yn y gynulleidfa yn aelodau'r teulu a ffrindiau. Wrth yr organ oedd Eleri Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 15fed a hyfryd oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn a'r ieuengaf ond yn 3 oed. Croesawyd pawb i'r oedfa gan y Gweinidog y Parch Wyn Thomas. Roedd y capel wedi ei addurno yn brydferth iawn gan blant yr Ysgol Sul ac roedd y croeso yn un arbennig felly i Delyth Morgans o Aberystwyth a ddaeth atom i roi neges y Cynhaeaf. Diolch iddi am ei chyflwyniad arbennig ac wrth yr organ roedd Mrs Eleri Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca.

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd rhodd i Elwyn a Mair Thomas o Dryslwyn gan y Gweinidog gan i'r ddau ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Cawsant lun mewn ffrâm o'r Capel wedi ei dynnu gan Robert Blayney o Bontsian gyda Nanna Ryder, Tyngrug Ganol wedi cyfansoddi geiriau pwrpasol i gyd-fynd.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Lewis ac Eifionwy Davies, Cilmeri ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddiwedd mis Hydref.

Dyma blant Ysgol Sul Capel y Cwm ar ôl iddynt addurno'r Capel ar gyfer y Cwrdd Diolchgarwch.

Cwrtnewydd

Diolch

Dymuna Wendy, Hannah, Eleri a Lowri, aelodau o staff Ysgol Cwrtnewydd ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at eu taith gerdded noddedig o 60 milltir ar hyd arfordir Ceredigion yn ddiweddar. Hoffai'r bedair ddiolch o galon i'r cefnogwyr brwd a fu yn eu helpu a'u hannog yn ystod y tri diwrnod. Hefyd, diolch yn fawr iawn i Rees Buildings a D & C Rallying am noddi eu dillad.

Canlyniadau Clwb 100 mis Hydref

1af Glyn a Beryl Morgan, Clydfan, Llanymddyfri; 2ail Roger Smith, Brynseion, Cwrtnewydd. 3ydd Lloyd Harries, Esgairfryn, Meidrim. 4ydd Byron Williams, Hafod y Gors, Gorsgoch.

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd.

Ar 9fed o Fedi daeth criw da o blantos bach i gyfarfod cyntaf y tymor. Braf oedd croesawu wynebau newydd. Yn ystod yr wythnosau diwethaf cynhaliwyd nifer o weithgareddau celf ar gyfer y plantos bach. Gan ei bod yn gyfnod diolchgarwch, mae'r plantos wedi bod yn brysur yn gwneud gwahanol fathau o lysiau a ffrwythau o does halen a'u peintio, ac mi fydd rhain yn cael eu harddangos yn Neuadd yr Ysgol yn ystod Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol. Ar Hydref 13eg aeth plantos y Cylch i Ysgol Uwchradd Llambed i ymuno yn y Sbri-Dri yng nghwmni Gwenda Owen. Ar Hydref 22ain cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Cwrtnewydd a braf oedd gweld nifer o blantos bach y Cylch yn bresennol. Cofiwch, mae 'na groeso mawr i bawb sydd am ymuno â ni. Rydym yn cwrdd bob prynhawn dydd Mawrth yn Neuadd yr Ysgol rhwng 1.15 -3.30yh. (adeg tymor yr ysgol yn unig). Am ragor o fanylion cysylltwch gydag Ann (01570 481065).

Ysgol Cwrtnewydd

Cafwyd tymor diolchgarwch prysur iawn yn Ysgol Cwrtnewydd. Mae plant blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn ffodus iawn i gael gwersi beicio dan arbenigedd PCSO Ryan Jones. Braf oedd gweld y plant lan yn y sgwâr top yn ymarfer ac erbyn hyn maent i gyd wedi llwyddo yn eu prawf beicio. Llongyfarchiadau mawr i chi! Mae plant dosbarth Mr Ward ynghyd â'u rhieni wedi cael y cyfle i ddilyn cwrs cymorth cyntaf yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch i Heather a fu yn arwain y plant bob prynhawn Gwener ac yn dangos sut mae gwneud Cymorth Cyntaf elfennol.

Cynhaliwyd noson o fingo i aelodau'r urdd - cafodd y plant dipyn o hwyl a sbri yn gweiddi llinell a tŷ. Bu plant a staff yr ysgol yn cofio T. Llew Jones ar ddydd Gwener, Hydref 9fed ac roedd cyfle i bawb wisgo fel cymeriad o un o'i lyfrau. Cafwyd sipsiwn, môr ladron, Twm Siôn Cati ac ati a bu'r plant yn brysur yn gwneud amrywiol dasgau yn seiliedig ar waith y diweddar awdur.

Charlotte Saunders, Cwrtnewydd yn ennill tlws yr unawd 8-10 oed ac yn fuddugol am ganu emyn dan 9 oed yn Eisteddfod Felinfach.

Cafodd plant y dosbarth bach a phlant y Cylch Ti a Fi gyfle i fynd i Sbri Di Ri a drefnwyd gan yr Urdd, Twf a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Cynhaliwyd y prynhawn yn Ysgol Gyfun Llanbed. Bu Gwenda Owen yn eu diddanu a chafwyd ymweliad gan Sali Mali a Mr Urdd. Roedd yn amlwg fod y plant wedi mwynhau yn fawr iawn. Cafwyd noson ffilm yn ein sesiwn Urdd. Bu'r plant yn gwylio ffilm newydd 'Scooby Doo'. Fel arfer wrth fynd i'r sinema, rhaid cael popcorn, felly cafwyd noson o fwyta a joio!
Fore dydd Mawrth, Hydref 20fed daeth y Brodyr Gregory i'r ysgol i gyflwyno sioe ar sut i edrych ar ôl ein hunain a chadw'r amgylchedd yn wyrdd. Roedd y neuadd yn orlawn â phlant a staff o Ysgolion Capel Dewi, Llanwenog a Llanwnnen wedi ymuno â ni. Ddiwedd y bore cafodd yr ysgol ei chyflwyno â thystysgrif a £200 am ymdrech benigamp yn dod yn ail yng Ngheredigion am gasglu 124 o Yellow Pages. Da iawn a diolch yn fawr i bawb a fu ynghlwm â'r fenter. Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch ddydd Iau, Hydref 22ain. Cafwyd canu arbennig ac anerchiad pwrpasol gan y plant. Ar ôl y gwasanaeth cafodd y rhieni, ffrindiau a phlant yr ysgol gawl a oedd wedi ei wneud gan y plant y bore hwnnw. Roedd yno arddangosfa liwgar o ffrwythau a llysiau yr oedd y plant wedi eu cyfrannu. Braf hefyd oedd gweld arddangosfa o ffrwythau toes a lluniau wedi eu lliwio gan blant y Cylch Ti a Fi. Bore drannoeth aeth holl blant yr ysgol i Gartref Maes y Felin, Drefach i gyflwyno eu rhoddion o ffrwythau a llysiau i'r preswylwyr.

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I. Llanwenog

Roedd Mis Medi yn fis prysur iawn yng nghalendr y clwb. Noson gyntaf y flwyddyn hon oedd noson yr arweinyddion a chafwyd llawer o sbri. Braf oedd gweld cryn dipyn o aelodau newydd wedi ymuno ac yn mwynhau. Cynhaliwyd noson gêmau tafarn ar y 14eg lle dewiswyd yr aelodau ar gyfer cystadleuaeth Chwaraeon Dan Do y sir.

Aeth nifer o aelodau'r clwb lawr i Genarth i nofio ar yr 21ain. Roedd pawb yn mwynhau wrth iddynt nofio ac ymlacio yn y jacuzzi, sauna a'r steam room.

Yna cynhaliwyd cystadleuaeth gyntaf y Sir sef y Chwaraeon Dan Do. Yn y dartiau bechgyn cipiodd Gethin Hatcher y wobr gyntaf, a chafodd Cerys Jones yr ail wobr yng nghategori'r merched. Yn y pŵl roedd Gareth Morgan Isaac yn cael cryn dipyn o hwyl wrth iddo ennill ei gystadleuaeth hefyd. Cafodd y clwb lwyddiant y noson yma wrth ddod yn gydradd ail ddiwedd y noson.

Noson i ymlacio oedd gyda'r clwb nesa wrth i Heledd Wilson ddod atom i gynnal noson ffisiotherapi. Roedd pawb i weld yn mwynhau ac yn mynd adre' wedi dysgu llawer am y corff.

Ddiwedd y mis fe aeth aelod o'r clwb sef Arwel Jenkins allan i Awstralia. Dymunwn bob hwyl iddo am ei gyfnod allan yno am wyth mis.

Daeth mis Hydref yn glou yn ein calendr ac roedd yn amser i'r clwb gymryd rhan yn ail gystadleuaeth y Sir, sef y Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Nyffryn Aeron. Nos Iau y 1af o Hydref roedd y timau dan 26 a 16 yn cystadlu. Yn yr adran dan 26 fe gipiodd Lyn Jenkins y wobr gyntaf fel Cadeirydd. Daeth y timoedd dan 26 yn 5ed a 6ed.Yn yr adran dan 16 daeth llwyddiant i'r clwb eto wrth i Sioned Davies gipio'r ail wobr fel cadeirydd a Sioned Hatcher yn cipio'r trydydd safle fel diolchydd. Daeth y timoedd yn 5ed, 6ed a 10fed. Ar y nos Wener roedd yr adrannau dan 21 a dan 14 yn cystadlu. Fel cadeirydd dan 21, daeth Enfys Hatcher yn fuddugol. Cipiodd Elin Jones yr ail wobr fel siaradwr a daeth y tîm yn gyntaf. Yn yr adran dan 14 cipiodd Delor Evans yr ail wobr fel cadeirydd a daeth y timoedd yn 2il ac 11eg. Erbyn diwedd nos Wener cyhoeddwyd mai Llanwenog oedd yn fuddugol dros y ddwy noson. Llongyfarchiadau i bawb.

Fe hwyliodd y clwb draw i Gei Newydd ar y 5ed i'r Bad Achub. Fe ddysgodd pawb ohonom lawer o bwyntiau, ond uchafbwynt y noswaith i lawer o'r aelodau oedd mynd i mewn i'r môr wedi gwisgo mewn gwisg bad achub, a daeth pawb allan yn sych! MAGIC!

Roedd y 12fed yn noson ddifyr yn y clwb; fe deithiodd yr aelodau ifanc i Bontsian i noson fforwm ieuenctid ac fe arhosodd yr aelodau hŷn yn Cwrtnewydd i ymarfer eu sgiliau syrcas. Roedd yr aelodau ifanc wedi cael llawer o sbri yn y fforwm wrth iddynt chwarae llawer o gêmau amrywiol a chael cymdeithasu gyda chlybiau eraill. I'r rhai hŷn a oedd wedi mynychu'r clwb yn Cwrtnewydd, roedd pawb wedi mwynhau hefyd. Ond yn wir roedd yna ddigon o glowns yn y clwb cyn dysgu rhagor o sgiliau!

Yr wythnos ganlynol cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol dan ofal y Parchedig Cen Llwyd. Hoffai'r clwb ddiolch iddo am ei neges bwrpasol. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb am gyfrannu llysiau a ffrwythau i'w cyflwyno i Gartref yr Henoed Maes-y-Felin.

Carwn fel clwb longyfarch dwy o'n harweinyddion, Rhian Bellamy a Rhian Thomas a briododd yn ystod y mis. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch a phob lwc yn y dyfodol.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Richard a Margaret Thomas, Llechwedd a ddathlodd eu Priodas Arian yn ystod mis Hydref.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Marian a Huw Morgan, Glasfan ar enedigaeth eu hail ferch ar Hydref 8fed, Megan Fflur, chwaer fach i Meri Elen. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Diolch

Dymuna Richard a Margaret, Llechwedd ddiolch i bawb o bell ac agos am y llu cardiau a'r dymuniadau gorau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian yn ystod y mis. Gwerthfawrogir y cyfan oll yn fawr iawn.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Gwawr Jones, Meysydd, Drefach sydd wedi dychwelyd i'r Brifysgol ym Mangor i ddilyn cwrs Meistr mewn Cerddoriaeth. Derbyniodd Gwawr radd BA dosbarth cyntaf mewn Cerddoriaeth a Chymraeg ym Mangor nôl yn yr haf. Yn ogystal dyfarnwyd Gwobr Addysged Robert Roberts iddi am y traethawd gorau yn yr Ysgol Dyniaethau, Gwyddorau Cymdeithasol a'r Gyfraith am 2009 a Gwobr Parry Williams am y traethawd hir gorau yn yr Ysgol Cerddoriaeth.

Bu'n haf prysur iawn i Gwawr hefyd. Bu'n cyfeilio ar y piano i Gôr Merched Lleisiau'r Werin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala; yn cyfrannu eitemau ar y delyn mewn cyngerdd yn Eglwys Llanwenog; yn cyfeilio ar y delyn a'r piano yn Eisteddfod Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan yn ogystal â chyfeilio ar y delyn mewn nifer o briodasau ar draws Cymru.

Pob dymuniad da i ti Gwawr a llwyddiannau pellach i ti ar gyfer y dyfodol.

Y Gymdeithas Hŷn

Ymgasglodd yr aelodau yn Festri Capel Seion trwy wahoddiad aelodau Capel y Bryn ym mis Medi i gyfarfod cyntaf tymor y Gaeaf. Croesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd; dymunodd wellhad i'r aelodau a oedd yn sâl, a chydymdeimlwyd yn fawr â Hyw Davies yn ei brofedigaeth o golli Eva, hithau wedi bod yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas Hŷn o'r dechrau, gan ddal swydd Ysgrifennydd am nifer helaeth o flynyddoedd.

Roedd hwn yn gyfarfod blynyddol, a darllenwyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2008 gan Eifion Davies a'u cael yn gywir. Rhoddwyd adroddiad clir a manwl o'r ochr ariannol gan y Trysorydd, Annie Bowen, ac eto fe gynigiwyd ac eiliwyd eu bod yn gywir.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith drwy'r flwyddyn gan Dilwen George. Cyfeiriodd eto at y golled a gafodd y Gymdeithas adeg marwolaeth yr Is-gadeirydd, sef y diweddar Gwilym Davies, a fu farw yn ystod y flwyddyn.

Etholwyd y canlynol am y flwyddyn gyfredol:- Cadeirydd- Dilwen George; Is-gadeirydd - Irene Jones; Trysorydd - Annie Bowen; Ysgrifennydd - Yvonne Davies; Ysg. Cardiau - Nanna Jones.

Paratowyd lluniaeth ysgafn gan chwiorydd Capel y Bryn a diolchwyd iddynt gan Irene Jones. Enillwyd y Raffl gan Eifion Davies, Mrs Beaumont a Dan Jones.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cyflwynodd Mrs Gwyneth Morgans a Mr Dai Evans, sef aelodau Pwyllgor Lles Llanwenog, siec am £1,140.60 i'r Gymdeithas Hŷn, gan fod y Pwyllgor Lles eisoes wedi ei ddiddymu. Diolchwyd yn fawr iddynt gan y Cadeirydd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Tachwedd yr 11eg am 1.30 yp yn Eglwys Llanwenog, pan fydd Peter Jenkins, gynt o Cwrtnewydd, yn dod i'n hannerch. Croeso cynnes.

Ysgol Llanwenog

Daeth cyfle i aelodau'r Urdd yn nosbarth y Babanod fwynhau yng nghwmni'r Urdd yn ystod sesiwn 'Sbri-di-ri' a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Llambed. Ymunodd llawer o enwogion yn y dathlu megis Mr Urdd, Sali Mali a Jac y Jwc gan ddawnsio a chanu i ganeuon y berfformwraig o fri, Gwenda Owen. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Bu dau dîm yn cystadlu yng nghystadleuaeth 'Pêl-droed 5 Bob Ochr' yr Urdd yn y Ganolfan yn Llambed. Bu'r cystadlu'n frwd a chyffrous a chafwyd prynhawn pleserus. Ddiwedd mis Medi bu'r Adran Iau yn cymryd rhan mewn Gŵyl Rygbi i ysgolion cynradd Cylch Llambed. Diolch yn fawr iawn i Gareth Williams, Swyddog Datblygu WRU am drefnu'r diwrnod ac am drefnu y diwrnodau gŵyl sydd i ddilyn yn ystod y flwyddyn.

Ddydd Mercher Hydref 14eg cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol yn Eglwys Santes Gwenog. Cawsom wybod sut oedd pobl eraill ar draws y byd yn dathlu'r adeg yma o'r flwyddyn a rhoddwyd diolch am yr hyn rydyn ni'n ffodus i'w dderbyn yn ein gwlad ni. Bu rhai o ddisgyblion iau yr ysgol yn perfformio yn rhan o gerddorfa a oedd yn cynnwys ffidlau, soddgrwth, organ a recorders. Bu'r babanod yn canu am y wiwer fach lwyd, dail y coed yn syrthio a diolch i Dduw am afalau a mes. Gwnaeth pob plentyn gymryd rhan gyda balchder. Roedd y casgliad eleni yn mynd tuag at achos da 'Adeiladu Fferm' yn yr Affrig. Aeth y plant â'r llysiau y diwrnodau canlynol i gartrefi preswyl Maes y Felin a'r Annedd. Tra roeddent yno buon nhw'n diddanu'r henoed trwy weddi, actio a chân. Diolch i bawb a ymunodd â'r plant yn eu Cwrdd Diolchgarwch. Hyfryd oedd gweld yr Eglwys wedi'i haddurno gan ei haelodau mewn ffordd mor ysblennydd gyda blodau a llysiau.

Cafwyd bore o hwyl a sbri yng nghwmni'r Brodyr Gregory ar Hydref 20fed. Fe ddysgwyd llawer am ddiogelwch ar yr heol ac am ailgylchu wrth wrando ar eu perfformiad.

Mae Adran yr Urdd eisoes wedi ail ddechrau yn yr ysgol. Braf yw cael nodi bod y mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol wedi ymaelodi. Mae'r arlwy hyd yn hyn yn cynnwys noson o gêmau potes, sgiliau syrcas dan arweiniad Rhydian Jenkins, Swyddog yr Urdd a bingo. Diolch yn fawr i Carys Davies, Heulwen Jones, Nia Evans a Sian Davies am arwain y nosweithiau.

Drefach a Llanwenog

Rhai o redwyr 'Ras Hwyl Gwenog' gyda noddwyr yr achlysur, sef Mr & Mrs Euros Davies, Adeiladwyr.

Cynhaliwyd 'Ras Hwyl Gwenog' fore Sul, Hydref 4ydd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Peter Davies am drefnu'r achlysur a'r rhieni eraill a fu'n allweddol er sicrhau llwyddiant y diwrnod. Hoffwn ddiolch i noddwyr y diwrnod sef Mr & Mrs Euros Davies, Adeiladwyr. Yn sgil llwyddiant y diwrnod, mae'n fwriad gennym gynnal y ras tua'r un adeg yn flynyddol. Dyma ddiwrnod i'w nodi yn eich dyddiaduron!

Mae gwefan yr ysgol yn fyw erbyn hyn. Mae'r diolch am hyn i Mrs Lorraine Davies a fu'n gweithio'n ddiwyd i sefydlu'r wefan. Diolch hefyd i aelodau staff Prifysgol Llambed am ein cynorthwyo gyda'r dasg. Cyfeiriad y safle we ydy

www.ysgolllanwenog.co.uk

Ar ddiwedd hanner tymor braint yw cael estyn diolch i Mrs Gwyneth Davies a Mrs Sue Evans a fu'n cyd-ddysgu yn yr ysgol drwy gydol y tymor. Braf oedd cael eu cwmni a bu'r disgyblion yn ffodus o'u doniau amrywiol, yn arbennig ym meysydd Cerddoriaeth a Chelf.

Estynnwn groeso cynnes hefyd i Charlotte Murray ac Angharad Evans sydd ar brofiad gwaith yn yr ysgol. Byddant yn arsylwi ac yn cynorthwyo yn nosbarth y Babanod hyd at ddiwedd y tymor. Amserol hefyd yw croesawu Miss Sioned Whitfield i'r ysgol wedi'r gwyliau.

Cylch Meithrin Gwenog

Croeso cynnes i Rhodri Gregson, Elen Morgan ac Amber Tomsett i Gylch Meithrin Gwenog. Maen nhw wedi ymgartrefu'n dda yn ein cwmni.

Cynhaliwyd stondin gacennau yn ystod y mis er budd y Cylch. Bu hwn yn llwyddiant mawr. Mae cogyddion o fri yn y plwyf! Bydd y stondin gacennau nesaf fore dydd Mercher, Tachwedd 11eg o 8.30 y.b. ymlaen. Dewch a phrynwch rywbeth bach neis i de. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r disgo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder nos Wener ola'r tymor. Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd gorau.

Os hoffech fwy o wybodaeth am rediad y Cylch, croeso i chi gysylltu â Miss Liza Williams ar 01570 480 382.

Cyngor Cymuned Llanwenog

NOSON AGORED

17.11.09

Neuadd y Pentref, Drefach am 7:30y.h.

yng nghwmni

Mr Digby Bevan,

Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion

yn trafod

Tai Fforddiadwy

Croeso i bawb.

Rhai o ddisgyblion yr Ysgol yn Eglwys Santes Gwenog adeg ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Roedd y casgliad eleni yn mynd tuag at achos da 'Adeiladu Fferm' yn yr Affrig.

Eglwys Santes Gwenog

Eleni gwahoddwyd y Parch Lynn Chambers, ficer Abergorlech a Llanfihangel Rhos-y-corn i'n hannerch yn ein Cwrdd Diolchgarwch ar y 5ed o Hydref. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a chawsom neges bwrpasol iawn ar brosiect yn yr Affrig, Build a Farm. Wedi'r oedfa aeth pawb i Gellideg i fwynhau Swper Cynhaeaf wedi'i baratoi gan wragedd yr Eglwys. Diolchodd y ficer, Y Parch. Bill Fillery, i Viria a'r teulu am eu croeso a'u caredigrwydd, ac i'r gwragedd am wledd fendigedig ac am addurno'r Eglwys mor hyfryd.

Ar Fedi 14eg bu plant Ysgol Eglwysig Llanwenog yn cynnal eu Cwrdd Diolchgarwch hwythau. Cafwyd eitemau amrywiol meistrolgar iawn ganddynt. Mawr yw ein diolch i'r brifathrawes Ms Heddwen Davies a'r staff am baratoi'r plant mor drwyadl. Braf oedd gweld Mrs Margaret Evans, cyn athrawes y blynyddoedd cynnar, yn y gynulleidfa. Yn ganlyniad i'r gwasanaeth codwyd £157 at y cynllun Build a Farm.

Llongyfarchiadau i Huw a Marian Morgan, Glasfan ar enedigaeth merch fach, Megan Fflur, a chwaer fach i Meri Elen.

Llongyfarchiadau i Richard a Margaret Thomas, Llechwedd ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Ymfalchïwn yn llwyddiant Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog a fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yn ddiweddar.

Mae Lyn Goodall yn atgoffa aelodau y Clwb Cant fod y taliad o £10 am y flwyddyn nesaf yn ddyledus. Dyma'r rhai a enillodd ym mis Hydref: £15. Marian Morgan; £10.Nancy Bone; £5.Ken Davies.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylus a chofiwn yn arbennig am Mrs Nancy Davies, Tyngrug Uchaf sydd yn Hafan Deg, hefyd Mrs Moira Bone a Mr Bradshaw, Plasnewydd.

Croesawn aelodau Eglwys Llanybydder atom tra fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar yr adeilad. Yn anffodus, daethpwyd o hyd i Dry Rot sy'n ychwanegu at gostau'r gwaith.

Diolch

Ar ran pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2010 plwyfi Llanwenog a Llanwnnen, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i gyrraedd y targed o £7,000.

Silian

Bethel, Silian – Bedydd

Dros wythnosau'r haf cafodd y Parchedig Jill Tomos, gweinidog Bethel, Silian, y fraint o gwrdd yn gyson â rhai o bobl ifainc yr eglwys i drafod ffydd a bedydd, ac roedd hi'n fater o lawenydd bod pedwar yn penderfynu eu bod yn dymuno ceisio bedydd gan gyffesu eu ffydd. Cawsom dywydd hynod braf ar fore'r 13eg o Fedi ar gyfer oedfa fedydd a daeth nifer da o aelodau a chyfeillion a theuluoedd y bobl ifainc ynghyd i'r capel. Wrth groesawu pawb i'r oedfa, bu Jill Tomos, y gweinidog presennol yn cydnabod gweinidogaeth ei rhagflaenwyr diweddar (sef y rhai fu'n weinidogion ers geni'r bobl ifainc): y Parchedigion Glandwr Roberts (llywydd presennol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion) a'r Parchedig W J Gruffydd, Tregaron. Nododd hefyd waith y ddwy Ysgol Sul, Ysgol Sul Bethel dan ofal Mrs Nesta Harries a Mrs Margaret Davies ac yn fwy diweddar, Ysgol Sul Eglwysi Bedyddwyr y dre a'r cylch, yn Noddfa, Llanbedr Pont Steffan, dan ofal Mrs Janet Evans a'i chydweithwyr. Roedd cyfraniad rhieni a theuluoedd hefyd yn werthfawr am eu bod wedi dewis magu eu plant yn sŵn yr efengyl, ond uwchben pob ystyriaeth arall, diolchwyd i Dduw am ei ffyddlondeb wrth iddo arddel y gwaith drwy roi ffydd. Bu'r oedfa yn y capel yn fyr ac wedi geiriau ac emynau pwrpasol troesom am y fynwent i'r fedyddfan lle roedd dŵr wedi ei baratoi. Bedyddiwyd y pedwar, bob un ar gyffes o'i ffydd, sef Iwan Uridge, Owen Williams, a Hedydd Davies ac Elliw Davies, pob un yn perthyn i hen deuluoedd Bethel. Edrychwn ymlaen at gael rhannu cymun gyda nhw am y tro cyntaf pan ddaw cyfle yn ystod y misoedd nesaf.

Clwb Clonc

Tachwedd 2009

£25 rhif 99:
Mrs Yvonne Davies,
Afallon, Drefach.

£20 rhif 490:
Heledd Meleri Wilson,
Lluest, Llanfihangel-ar-Arth.

£15 rhif 199:
Llyr Gruffuths,
Cefnrhuddlan Isaf, Llanwenog.

£10 rhif 102:
Mrs Glenys Davies,
Gelli Aur, Rhydybont, Llanybydder,

£10 rhif 393:
Eira Price,
Gelli, 1 Brynsteffan, Llambed.

£10 rhif 409:
Mrs Helen Roberts,
19 Bro Llan, Llanwnnen.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref

Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Terry Jones

Ffotograffydd
www.terrywjones.co.uk
1 Cwrt Deri
Cwmann
Llanbedr Pont Steffan
01570 421 173
07970825724

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES
Am eich holl
ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.
☎ 01570 422955
01570 422232

Toriad
Taclus
Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Cwmann

Sefydliad y Merched

Ar Hydref y 5ed roedd Sefydliad y Merched Coedmor yn dathlu 60 mlynedd yng Ngwesty Glyn Hebog.

Cawsom ein croesawu i'r gwesty gyda'r delynores Georgina Cornock-Evans yn canu'r delyn, gwledd hyfryd i'r glust. Hefyd derbyniodd pawb raglen liwgar i gofio'r achlysur.

Yna croesawodd ein llywydd Ann Lewis y cyn aelodau, yr aelodau presennol a Pat Thomas – ysgrifenyddes y mudiad yn Sir Gâr i ddathlu gyda'n gilydd.

Traddodwyd gras gan Gwyneth Morgan, ein hysgrifenyddes, ar ffurf penillion yn ymwneud â'r dathlu.

Ar ôl cael gwledd ardderchog gyda'r byrddau wedi eu haddurno i gyd-fynd â'r achlysur, aeth Ann ymlaen i wahodd Pat Thomas i gynnig llwnc destun i'r gangen. Cafwyd araith fer ganddi ar y gair "Dathlu" gan gloi fel a ganlyn... "Mae'n iawn i freuddwydio ond mae'n rhaid cydweithio i lwyddo". Yna aethpwyd ymlaen at uchafbwynt y noson, sef ein gwraig wadd Avril Williams - un o aelodau cyntaf y gangen. Cafwyd braslun diddorol dros ben o ddyddiau cynnar y gangen hyd yn awr, gydag Avril yn traddodi yn ei ffordd unigryw ei hunan.

Torrwyd y gacen, a oedd wedi ei gwneud a'i rhoi gan Morfudd Slaymaker, gan Avril ein haelod hynaf, ac Ann, ein llywydd, i ddathlu'r achlysur. Diolchodd yr is lywydd, Elma Phillips, yn gynnes iawn i bawb a oedd wedi cymryd rhan ac i'r rhai a fu yn trefnu ar gyfer noson a saif yn hir yn y cof.

Cymdeithas Bethel

Cafwyd noson agoriadol hwylus yn y Gymdeithas dan lywyddiaeth yr Is Lywydd Mrs Morfudd Slaymaker.

Mr Lyn Jenkins Llanybydder oedd ein gŵr gwadd a bu yn sôn am ei daith ar y Peru Tree a'r nod oedd cyrraedd hen ddinas Machu Picchu a chodi arian at Ymchwil Cancr Cymru. Cawsom hanes mewn llun a gair am frodorion Peru heddiw ac am yr Incas a oedd yn byw yno saith canrif yn ôl ac fel y darganfu Hiram Bingham yr hen ddinas yn 1911.

Talwyd y diolchiadau gan y Dr. David Thorne i Lyn, ac i Elsie ac Ann am y te.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Rhian Eleri Jones, Y Glyn ar ei dyweddïad â Ben Morris o Southampton.

Ysgol Carreg Hirfaen

Yn ystod y mis ac yn dilyn blwyddyn o waith paratoi, dyfarnwyd statws y Faner Werdd i'r ysgol. Diolch i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys aelodau'r Cyngor Eco a chwaraeodd ran flaenllaw yn llwyddiant yr ysgol yn ennill y wobr. Gobeithir yn awr arddangos y faner tu allan i'r ysgol.

Bu Tîm Trawsgwlad yr Ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Mared Owen (blwyddyn 5) am ddod i'r brig yn ei ras.

Mae disgyblion a rhieni Carreg Hirfaen wedi bod yn brysur yn casglu hen ddillad i godi arian at yr ysgol.

Aeth plant CA1 i ymweld â sioe Sbri di Ri yng nghwmni Gwenda Owen. Cafwyd llawer o hwyl yn canu a dawnsio.

Cafodd un o ddisgyblion blwyddyn 6, Morgan Lewis y fraint o fod yn DJ y bore ar raglen Radio Cymru yn ddiweddar. Roedd rhaid iddo ddewis cân a'i chyflwyno yn fyw o'r ysgol.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn ddiweddar yng nghapel Caersalem, Parcyrhos. Cafodd pob plentyn y cyfle i gymryd rhan. Diolch i'r Parchedig Jill Thomas am y croeso.

Y Parch Huw Roberts a swyddogion Capel Bethel Parcyrhos yn cyflwyno rhodd i Ann Lewis am ei gwasanaeth fel ysgrifenyddes am 21 o flynyddoedd.

Ddydd Mawrth, Hydref 13eg aeth aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-ysgol i'r Cynulliad yng Nghaerdydd. Cawsant weld ble mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal a chael dadl ar y testun, ysgolion iach. Daeth Rhodri Glyn Thomas, aelod ardal yr ysgol, i'w gweld a chawsant drafodaeth gydag ef.

Sefydlwyd ystafell gyfrifiaduron newydd sbon ar gyfer y disgyblion sydd yn cartrefu dwsin o'r cyfrifiaduron Applemac diweddaraf. Mae'r plant eisoes yn manteisio ar y cyfleoedd ychwanegol mae'r cyfarpar newydd yn gynnig ym maes cyfrifiadureg ddigidol ac yn cynhyrchu gwaith arbennig. Diolch i'r Pwyllgor Rhieni Athrawon am eu cyfraniad ariannol swmpus tuag at brynu'r adnoddau cyfrifiadurol.

Cwmann

Baner Werdd Eco Ysgolion. Bu Ysgol Carreg Hirfaen yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar wrth ennill statws Baner Werdd y wobr Eco-Ysgol. Gweler aelodau'r Pwyllgor Eco-Ysgol yn y llun gyda'r faner werdd anferth.

Diolch

Dymuna Siân a Gethin ddiolch o waelod calon i bawb am eu noddi i redeg hanner marathon Caerdydd ar y 18fed o Hydref. Roedd y ddau yn rhedeg y ras fel teyrnged i'w hannwyl ewythr Raymond, yn ogystal â chodi arian tuag at ymchwil Motor Neurone a cheisio codi ymwybyddiaeth pobl o'r clefyd creulon hwn.

Cafwyd diwrnod hwylus a llwyddiannus iawn yng nghwmni teulu a ffrindiau, gyda Gethin yn llwyddo i orffen y ras mewn 1 awr 34 munud a 52 eiliad a Siân mewn 1 awr 52 munud a 57 eiliad, a hoffai'r ddau ddiolch yn fawr i'r holl deulu a'u cefnogodd ar hyd y daith, ar ddiwrnod a oedd yn anodd ac emosiynol i bawb.

Braf iawn yw nodi ein bod ar hyn o bryd wedi casglu tua £4000 i Gronfa Goffa Raymond Roberts, ond mae'r arian yn dal i ddod. Carwn ddiolch hefyd i HSBC Llanbed am gyfrannu £500 i'r achos wrth ein noddi £1 am £1. Rydym fel teulu yn wirioneddol ddiolchgar i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni.

Diolch

Dymuna Evanna Mason, 21 Treherbert ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn ar ôl fy llawdriniaeth yn Ysbyty Prince Phillip, Llanelli.

Dymuna Gwen Jones, Derrymore ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion, blodau a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Phyllis Jones, Cilgell, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili.

Clwb yr Henoed Cwmann

Mae'r Clwb yn cwrdd bob pedwerydd dydd Llun yn y Neuadd Gymuned. Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod yn aelodau. Ar Dachwedd 23ain am ddau o'r gloch, fe fydd Donald Morgan, Blodau'r Bedol, yn dod atom i ddangos sut i osod blodau ar gyfer y Nadolig. Croeso cynnes i bawb ddod atom, yn aelodau ac eraill. Dewch yn llu am brynhawn diddorol; fe fydd lluniaeth ysgafn.

Clwb 170 – Hydref

1. Mr David Herbert, Dolfor, Cwmann, 84, 2. Mr W. Mason, 21 Tre Herbert, Cwmann, 130, 3. Mrs E Warmington, Falkland, Bryn Rd, Lampeter, 85, 4. Mrs Gwenna Evans, Tŷ Newydd, Barley Mow, 14, 5. Mrs Glenys Harrison, Llanfair Rd, Llanbed, 59, 6. Mrs Ann Lewis, Hill Side, Cwmann, 86, 7. Mrs Geraldine Hardy, Trewerin, Cwmann, 9, 8. Mrs Jenny Bracker, Glyn Du, Cwmann, 99, 9. Mrs Kate Williams, Sarnhelen, Cwmann, 18, 10. Mr Emyr Jones, Teify Forge, Cwmann, 40.

Clwb 225 – Hydref

1. 171, Mrs Lumb, Parc y Rhos House, Parc y Rhos, 2. 91, Mr Aled Davies, Tremle, Cwmann, 3. 180, Mrs Jean Thomas, Gwlith y Wawr, 4 Cwrt Deri, 4. 140, Mr Wynford Thomas, Pant y Gwyn, Cellan, 5. 114, Nancy James, Emlyn Cottage, Cwmann, 6. 99, Mr John Davies, Y Ddôl, Cellan, 7. 222, Mr Richard Williams, Tŷ Howel, Cwmann, 8. 184, Miss Griffiths, 1 Tre Herbert, Cwmann, 9. 226, Mrs Eirwen Griffiths, Ffawydd, Cwmann, 10. 29, Julie Davies, 3 Nant y Glyn, Cwmann.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Aeth tîm o'r Adran Iau i gystadlu mewn cystadleuaeth pêl droed 5 bob ochr yr Urdd (Cylch Llambed) yng Nghanolfan Hamdden Llambed. Aelodau'r tîm oedd Jac, Alwyn, Scott, Gabi, Rhian Thomas, Rhian Glasson a Sophie.

Aeth plant blwyddyn 3 a 4 i Ysgol Cae'r Felin am brynhawn i dderbyn gwersi golff. Mwynhaodd pawb y profiad a dysgu sgiliau newydd.

Bu'r plant i gyd yn cymryd rhan yn oedfa Cwrdd Diolchgarwch yr eglwys ar y 1af o Hydref. Aeth arian y casgliad at brynu anifeiliaid ac adnoddau fferm yn Kenya ac Uganda.

Mwynhaodd y babanod sesiwn o ganu "Sbri Di Ri" yn Ysgol Gyfun Llambed dan ofal Gwenda Owen. Roedd pawb wedi mwynhau cwrdd â Mr Urdd a Sali Mali.

Daeth Elinor o'r Frigâd Dân atom i'n hatgoffa am beryglon tân yn y cartref a chawsom gyfle i wisgo dillad dyn tân.

Daeth Margaret Evans i'r ysgol i werthu nwyddau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010. Roedd yna nwyddau o bob math, o bensiliau i beli a chrysau rygbi.

Bu blwyddyn 6 yn Ysgol Llambed yn cael gwersi Gwyddoniaeth gan Miss Mattie Evans, gwersi diddorol fel arfer.

Roedd yn braf gweld cymaint o blant a staff wedi gwisgo lan ar y diwrnod cenedlaethol i gofio T. Llew Jones. Yn ystod y dydd cynhaliwyd nifer o weithgareddau, sef gwrando ac adrodd cerddi, tynnu lluniau, collage, parodi, ac erbyn diwedd y prynhawn roedd pob plentyn wedi dysgu rhyw bennill o waith yr enwog T. Llew Jones.

Cofiwch am gyfarfod blynyddol y gymdeithas rhieni, staff a ffrindiau yn yr ysgol ar nos Lun, Tachwedd 9fed am 7.30. Byddwn yn dechrau trafod sut y gallwn ddathlu fod yr ysgol yn 140 mlwydd oed y flwyddyn nesaf.

Yn anffodus, oherwydd gostyngiad yng nghyllid yr ysgol bu'n rhaid i ni ffarwelio ag Anwen James fel goruchwylwraig awr ginio. Bu Anwen yn gweithio yn yr ysgol am 17 mlynedd. Cyflwynwyd tysteb iddi ar ei diwrnod olaf i ddangos ein gwerthfawrogiad o'i gwaith dros y blynyddoedd.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Hydref: £10 – 86 – David Ablett. £5 – 105 – M Downer, Llwynonn, Llanllwni. £2.50 – 32 – Sara Thomas, Crossroads. £2.50 – 15 – Michael Douglas, 2 Emlyn Villa, Pencader. £2.50 – 23 – Rebecca Evans, Anwylfan, Llanllwni.

70oed

Dathlodd Bet Morgan, Glanafon ei phen-blwydd yn 70 oed ddiwedd mis Hydref. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu.

C.Ff.I. Llanllwni

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn eisteddfod y sir a gafodd ei chynnal ganol mis Hydref yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin a diolch i bawb a wnaeth ein hyfforddi. Llongyfarchiadau i Meryl Davies, Catrin Evans, Sioned Maskell, Nerys Thomas, Betsan Jones, Ifor Jones a Owain Davies am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Parti Llefaru, Owain Davies a Rhian Davies am gipio'r wobr gyntaf yn y Stori a Sain ac i Rhian Davies am ddod i'r brig yn y gystadleuaeth llefaru dan 21 oed, ac hefyd am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Adrodd Digri. Yn yr adran Gwaith Cartref cafodd Anwen Jones yr ail wobr yng nghystadleuaeth y frawddeg a Meryl Davies ail am gynllunio rhaglen clwb am y flwyddyn i ddod. Erbyn diwedd penwythnos a oedd yn llawn cystadlu, braf oedd gweld Llanllwni yn y trydydd safle. Llongyfarchiadau i bawb!

Braf oedd gweld cynifer o bobl wedi dod i'n Cwrdd Diolchgarwch blynyddol a gynhaliwyd yn Eglwys Llanfihangel-ar-Arth nos Fawrth 20fed o Hydref a oedd dan arweiniad y Parchedig Eric Roberts. Diolch i bawb am eu cefnogaeth trwy gyfrannu ffrwythau a llysiau a roddwyd i Gartref yr Henoed Annedd, Llanybydder a thrwy gyfrannu at y casgliad a fydd yn mynd tuag ar Adran yr Urdd, Llanfihangel-ar-Arth.

Yn yr wythnosau sydd i ddod rydym yn mynd i gynnal Swper Cynhaeaf blynyddol y clwb; ymweld â Gorsaf Frigâd Dân Caerfyrddin; cynnal noson hyrwyddo teithiau tramor, a chymryd rhan yng nghystadleuaeth chwaraeon y sir – pob lwc i bawb!

Gwahoddir cwmnïau lleol i hysbysebu yn CLONC yn y rhifyn Nadolig. £10 am hysbyseb bach fel sydd yn y rhifyn hwn, neu £50 am un mewn 10 rhifyn - Bargen! Cysylltwch â'r trysorydd ar 01570 480015, neu ysgrifennydd@clonc.co.uk
Efallai bydd cynrychiolwyr CLONC yn galw gyda chi cyn bo hir.

Llanbedr Pont Steffan

Taith i'r Gogledd - Cerddwyr Llambed - Porthaethwy, Ynys Môn

Dyma ni ar y ffordd o'r diwedd a Ron a Megan wedi paratoi'r daith yn fanwl. Aros yn gyntaf ger Dolgellau, yn Llanfachreth rhyw ddwy filltir i fyny ar heol Bala . Dyma lwybr y Clogwyn o amgylch dyffryn cudd, coediog a llwybrau i'w cofio yn mynd trwy'r grug. Edrychwn i lawr ar greigiau serth ac fe edrychwn draw tuag Abermaw a môr Ceredigion.

I ffwrdd â ni ar y ffordd i Flaenau Ffestiniog, Betws y Coed a Phont Menai. Yn fuan ar ôl croesi Pont Telford, roedd ein gwesty, Y Gazelle. Dyma le diddorol ar ochre afon Menai. Goleuadau Bangor oedd yn serennu yr ochr draw a mynyddoedd Eryri y tu ôl yn llanw'r pictiwr.

Ddydd Sadwrn fe ddaeth ein harweinydd, Alan James o gerddwyr Môn, i ddangos ein ffordd i ni i Niwbwrch. Dyma ardal sydd wedi ei llunio gan y gwynt, y tywydd a gan ddynion. Y mae coedwig wedi cael ei phlannu i amddiffyn y pentref rhag i'r tywod ei orchuddio. Cerdded yno ar lwybrau diddorol gan ryfeddu at y madarch lliwgar ar y coed. Mae gan y gigfran le i gymdeithasu yma ac wrth i Alan ganu fe gafodd ateb gan y gigfran. Mae 'na draeth ardderchog yma ond mae eisiau edrych ar amserau'r llanw. Fe gyrhaeddom Eglwys Sant Siriol a phriordy gerllaw ar y penrhyn lle bu Santes Dwynwen yn byw. Yma hefyd mae aber y Fenai ond yn ôl yr aethom i'r goedwig i weld y blodau prydferth. Dyna oedd golygfa ardderchog dros y Fenai!

Dydd Sul fe gawsom daith i'r gogledd o Fiwmares. Dechrau yn Llangoed, cartref Alan, a cherdded ar hyd ffyrdd cul a chaeau i Gastell Aber Rheiniog. Safle uchel a lle gwych i gadw llygad ar y bae, y Fenai, Conwy, y Gogarth yn Llandudno ac allan i'r môr tuag at y gorllewin. Adeiladwyd y castell gan y Norman, Hugh Lupus yn 1086, yn fuan ar ôl 1066. Roedd hwn yn elyn i bob Cymro.

Cyn hir, fe gyrhaeddom Eglwys Sant Seiriol a'r ty colomennod. Dyma hen eglwys ddiddorol ond bydd rhaid galw eto i gael profi'r tawelwch yma. Fe gafodd pawb yn ein criw ni eu bendithio ar y daith gan ddwr o'r ffynnon yno.

Cyrraedd Penmon ar y penrhyn ac roedd yn brysur gan ei bod yn ddydd Sul â moduron ym mhobman. Yn ôl wedyn nes cyrraedd bwrdd Arthur mewn dwy filltir. Man delfrydol arall lle gallem weld y Bae Coch, Moelfre, Amlwch, Mynydd Paris a Mynydd Caergybi yn y pellter. Ynys ffrwythlon yw hon ac fe gawsom ddigon o fwyar duon ar ochrau'r cloddiau.

Nos Sul fe gymerodd ein harweinydd a'i wraig, Sue, swper gyda ni. Braf oedd cael eu cwmni a diolch i Alan am drefnu teithiau mor ddiddorol i ni.

Daeth dydd Llun a rhaid dweud ffarwel wrth y llety ardderchog. Stopio ym Mhorthaethwy i gael cerdded dan y pontydd byd enwog - Pont Telford (1830) a phont Rheilfordd Brittania (1850). Ar hon mae 'na ddau lew carreg yn gorwedd bob ochr. Yma hefyd mae eglwys hynafol Llandysilio ger y lli. Cafodd morglawdd ei adeiladu yma gan ffoaduriaid o Wlad Belg yn 1914. Gallwch gerdded yma mewn tawelwch gan synnu fod y traffig uwch eich pen yn y cymylau!

I lawr yr A5 yn awr tuag adref. Galw eto am seibiant i gerdded dwy filltir mewn ceunant yn Y Brithdir, ger Dolgellau. Diolch i Ron a Megan am fod mor dda â'u trefniadau. Fe gawsom amser ardderchog.

Philip Lodwick

Adran yr Urdd, Llambed

Croeso cynnes i dros 40 o aelodau hen a newydd yn ein cyfarfod cyntaf y tymor hwn. Mae 'na weithgareddau di-ri i ddod! Cawsom noson o fingo i ddechrau'r rhaglen eleni, ac roedd yr aelodau'n cystadlu'n frwd i ennill gwobrau. Yna, daeth Sally Saunders i arwain noson o ddawns ac unwaith eto roedd yr aelodau yn cael cyfle i ddysgu symudiadau sionc! Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i wisgo gwisg ffansi ar gyfer y Parti Calan Gaeaf ac mae'r aelodau'n awyddus i gystadlu yn y Carnifalwn a gynhelir yn Theatr Felinfach ar Dachwedd 12. Cofiwch, bydd y bws yn gadael y Rookery am 6.00y.h. Cost y bws bydd £6.

Yn ychwanegol at y gweithgareddau bob yn ail nos Lun, mae'r aelodau yn cymryd rhan mewn amryw weithgareddau a chystadlaethau. Yn ddiweddar, daeth disgyblion Bl.6 o fewn trwch blewyn i fynd i'r rownd gynderfynol mewn cystadleuaeth pêl-droed, rhan o Noson Chwaraeon yr Urdd yn Llangrannog. Diolchiadau i Delyth, Dai a Roger am fynd â'r plant.

Nodyn i'ch dyddiadur: bydd cyfle i weld yr aelodau'n perfformio a chanu yn Sul yr Urdd ar Nos Sul, Tachwedd 15, yn Noddfa am 5yp. Diolch i Janet a Rhiannon am yr holl ymarfer; mae'r plant yn werth eu clywed. Croeso cynnes i bawb!

Merched y Wawr

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar Hydref 12 gydag Aerwen yn y gadair. Dechreuwyd trwy ganu cân y mudiad gyda Margaret wrth y piano. Yna aeth Aerwen ymlaen i ddweud mai da oedd clywed bod Jan Harries yn gwella yn raddol.

Ein siaradwr gwadd am y noson oedd Jeff Jones o Grefftau Afan. Athro gwaith coed oedd Jeff yn Ysgol Uwchradd Tregaron hyd ei ymddeoliad. Ers hynny mae wedi ymddiddori mewn aur ac arian. Mi fuodd yn esbonio ystyr y rhifau a'r symbolau sydd ar ein gemwaith. Cafwyd hanes diddorol ganddo am y gwahanol batrymau y mae'n bosib i'w gwneud â'r ddau fetel yma. Daeth â llawer o emwaith diddorol gydag e i'w arddangos.

Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Gwyneth. Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf ar Tachwedd 9 gyda Nia o Bodlon. Bydd yna groeso cynnes i'r dysgwyr i ymuno gyda ni.

Ysgol Ffynnonbedr

Yn y cyfnod a aeth heibio mae'r ysgol wedi bod yn brysur fel arfer. Rydym wedi bod yn paratoi at ein Cwrdd Diolchgarwch ac yn casglu blychau Nadolig i'w hanfon at blant llai ffodus na'n disgyblion. Mae'r rhain yn byw yn Nwyrain Ewrop. Mawr yw ein braint i allu helpu'r plant yma.

Bu un o'n staff yn ddiweddar, sef Miss Wenna Davies, ar daith i Murcia yn Sbaen yn rhan o broject Ewropeaidd. Pwrpas y daith oedd creu cysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd tramor y gallwn ni gydweithio â nhw dros y blynyddoedd nesaf. Cysylltwyd ag Awstria, Ffrainc, Sbaen, Iwerddon a'r Eidal. Edrychwn ymlaen yn eiddgar yn awr at ddatblygu'r cyfeillgarwch â'r ysgolion perthnasol ymhellach.

Cafwyd tipyn o hwyl yn yr ysgol yn ddiweddar trwy nifer o weithgareddau. Bu'r plant lleiaf draw yn yr Ysgol Uwchradd yn canu gyda Gwenda Owen yn Sbri-di-ri yr Urdd. Cawsant amser hyfryd.

Bu'r Brodyr Gregory yma hefyd yn rhoi sioe ddiogelwch i'r plant, sioe yn llawn hiwmor a brwdfrydedd. Cafodd y plant fwynhad ond hefyd ymhlyg yn yr hwyl roedd neges bwysig a gwerthfawr.

Yn olaf, ddydd Gwener Hydref 9fed buom fel ysgol yn cofio T Llew Jones. Bu'r plant yn gwisgo fel gwahanol gymeriadau o'i storïau. Canolbwyntiodd y plant lleiaf ar thema'r môr-ladron. Bu'r rhan fwyaf o'r plant hynaf yn efelychu Twm Siôn Cati tra bu dau ddosbarth yn dynwared cymeriadau o Dirgelwch yr Ogof.

Gwobrwywyd y goreuon â thocyn

Llanbedr Pont Steffan

llyfr gan obeithio y byddai hynny yn sbardun i ddarllen ymhellach.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Ysgol Ffynnonbedr. Etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeiryddion: Lowri Elen a Sulwen, Ysgrifenyddion: Sian Elin a Sophie, Trysorydd: Megan, Gohebyddion y Wasg: Gwawr a Lauren. Cytunodd Geinor Medi a Janet i barhau fel arweinyddion gyda chymorth Mareth, Rosaline, Joy, Guto a nifer o rieni. I ddiweddu'r noson cafwyd llawer o hwyl yn cymryd rhan mewn gêmau amrywiol gyda'r parasiwt dan gyfarwyddyd Geinor Medi. Diolch yn fawr i Geinor a hefyd i Janet, Rosaline a Rhian am gynorthwyo. Nos Fawrth Hydref 20, treuliwyd noson ddifyr arall yng nghwmni Rhydian o'r Urdd. Fe'i croesawyd yn gynnes i'n plith gan Lowri Elen. Bu'r aelodau yn dysgu sgiliau syrcas a hefyd yn canu carioci drwy gyfrwng peiriant newydd sbon. Amlygwyd talent sawl seren bop y dyfodol! Diolchwyd i Rhydian am noson yn llawn hwyl a sbri gan Tomos Rhys ac i Geinor Medi a Janet am gadw trefn.

Thema'r cyfarfod olaf cyn gwyliau hanner tymor oedd 'Hwyl Calan Gaeaf' yng ngofal Geinor Medi. Roedd wedi paratoi nifer o gystadlaethau a gêmau amrywiol, fel codi melysion allan o fowlen o hufen heb ddefnyddio dwylo, gorchuddio aelod â phapur tŷ bach i greu mymi a phaentio wynebau. Roedd pawb wedi ymuno yn yr hwyl ac o ganlyniad mwynhawyd y cyfan yn fawr iawn. Ar ddiwedd y cyfarfod roedd Lowri, Siôn, Alis a Sulwen yn edrych yn dra wahanol! Diolchodd Sian Elin i Geinor Medi am noson ddifyr dros ben ac i Janet a Mareth am gynorthwyo, er eu bod wedi gwacau'r pecyn melysion! Pob dymuniad da i Sara Wyn, Carys, Leanne a Haf sydd yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ym Mhlascrug, Aberystwyth ym mis Tachwedd.

Sul yr Urdd

Cynhelir oedfa flynyddol Sul yr Urdd yn Noddfa ar Dachwedd 15 am 5 o'r gloch. Cymerir rhan gan aelodau'r Adran a'r Aelwyd mewn pennill a chân a chesglir tuag at achos da i'w gyhoeddi yn y dyfodol agos. Croeso cynnes i bawb ddod ynghyd i ymuno yn yr addoliad gyda'r plant a'r bobl ifanc.

Gwellhad Buan

Mae Jan Harris wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yng Nghaerdydd ac erbyn hyn mae nôl yng Nglangwili. Mae pawb yn ardal Llambed a'r tu hwnt yn meddwl amdani ac yn gobeithio y bydd hi gartref gyda Hag a'r bechgyn cyn bo hir. Estynnir dymuniadau gorau iddi am wellhad buan. Brysiwch wella, Jan.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Nos Fercher 30ain o Fedi, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Yr enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion – Cydradd 1af – Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed a Gwendoline Jones, Llanybydder. Merched – 1af - Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambed. 2il - June Mason, Rhes Harford, Llambed. Carden Miniature – Dynion – Yvonne Jones, Tregaron. Cydradd Merched – Cathrine Morgan, Llambed a Rita Griffiths, Rhydcymerau. Bwrw Allan – Enillwyr – June Mason a Ifan John Jones, Felinfach. 2il – Gwendoline Jones a Catherine Morgan.

Nos Fercher 14eg o Hydref, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Yr enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion – 1af – Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambed, 2il – Mari Thomas, Talgarreg, 3ydd – Nancy Davies, Heol y Wig, Llambed. Merched – 1af – Mary Evans, Bro Cadarn, Llanwnnen, 2il – Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach, 3ydd – Peter Jones, Llambed. Carden Miniature – Dynion – Mai Williams – Tregaron. Merched – Ruth Davies, Tregaron. Bwrw Allan – Enillwyr – Ray Jenkins, Llanybydder a Ray Thomas, Llambed. Ail – Gwendoline Jones, Llanybydder a Mari Thomas, Talgarreg.

Bydd y Gyrfaoedd Chwist mis Tachwedd ar nos Fercher yr 11eg a 25ain. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys at bawb sydd wedi dioddef profedigaeth yn ystod y mis.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Eluned Hopkins, Hendryd ar ddod yn fam-gu am y tro cyntaf, merch fach, Catrin Medi, i Eleanor a Barry yn Llanwnnen.

Pen- blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Rhiannon Jones, Fronowen, Heol Maestir ben-blwydd arbennig yn ystod y mis.

Cylch Cinio

Daeth oddeutu deugain i gyfarfod cyntaf y tymor yn y brifysgol ar 1af o Hydref. Talwyd teyrnged i ddau aelod ffyddlon a fu farw yn gymharol ddiweddar. Y Bnr. Emyr Llewelyn Jones oedd y gwestai, ac yn ei gyflwyniad cyfeiriodd y Cadeirydd John Davies ato fel athro ac awdur ac un sy'n adnabyddus trwy Gymru. Derbyniwyd nawdd Yr Academi Gymreig ar gyfer y noson.

Niclas Y Glais, Y Parch J E Nicholas [1878-1971], oedd testun sgwrs y siaradwr. Canolbwyntiodd ar agweddau gwleidyddol ar fywyd a gwaith Niclas ac fe gafwyd cyflwyniad bywiog iawn ganddo, yn llawn hiwmor a sylwadau craff. Dyfynnodd beth tystiolaeth ddogfennol a llafar a sôn am gyfnod Niclas yn weinidog yn Y Glais, Cwm Tawe. Bu yn siaradwr amlwg dros y Blaid Lafur Annibynnol a rhannodd lwyfannau gyda Keir Hardie AS Merthyr yn y cyfnod. Bu mewn trafferth gyda'r Awdurdodau am siarad yn erbyn Y Rhyfel Mawr, a blynyddoedd yn ddiweddarach, wedi cyfnod yn weinidog yn Llangybi, Ceredigion, a symud i Aberystwyth i sefydlu practis deintydd, cafodd drafferthion eto. Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, fe'i carcharwyd ef a'i fab am eu daliadau a'u dal yng ngharchardai Abertawe a Brixton. Yn Brixton ysgrifennodd nifer o gerddi a gyhoeddwyd yn y llyfryn "Llygad y Drws". Y Bnr. John Phillips a ddiolchodd i'r siaradwr, "am ddod â'r dyn yn fyw", ac fe'i anogodd i ystyried ysgrifennu llyfr ar ei destun. Y Bnr. Sulwyn Thomas yw'r siaradwr gwadd yn y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 5ed.

Cymdeithas Hanes

Daeth cynulliad da ynghyd i gyfarfod mis Medi, ac fe'u croesawyd i gyd gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, cyn iddo gyflwyno Nicky Evans a oedd yno i sôn am Lanerchaeron. Mae ganddi brofiad o weithio yno fel goruchwylwraig tŷ ers 16 mlynedd, ac mae wedi gweld trawsnewid yn yr adeilad yn ystod y cyfnod hynny. Daeth hynny yn amlwg i'r aelodau wrth weld lluniau 'cynt' a 'wedyn' yn ystod y noson.

Rhoddodd grynodeb byr o hanes teulu'r Lewesiaid a fu'n byw yno, cyn mynd ar 'daith' drwy'r tŷ o ystafell i ystafell. Gadawyd y stad i'r Ymddiriedolaeth Cenedlaethol ym 1989; roedd cyflwr y tŷ wedi dirywio'n ddifrifol - y gwaith coed i gyd wedi pydru. Roedd cynllun y to yn wallus, gan adael y glaw i ddiferu trwodd. Mae'n debyg fod cyflwr y trawstiau derw yn 'slwtsh'. Yn nhyb Nicky Evans, roedd golwg y tŷ fel cyfanwaith yn bwysicach i John Nash, y cynllunydd, na'r manion pwysig i ddiddosi'r lle! Wedi dweud hynny, mae ymwelwyr o hyd yn cael eu twyllo gan y ffenestri ffug, gan feddwl fod yna ystafelloedd nad ydynt wedi'u gweld.

Soniodd Nicky Evans am y casgliadau pellach sydd wedi eu cyflwyno i ofal yr Ymddiriedolaeth yn Llanerchaeron, megis rhodd ewyllys Mary Ward yn 1994, a chasgliad offer fferm Geler Jones sydd yn cael ei ddangos o bryd i'w gilydd.

Does dim dwywaith nad yw perchnogaeth yr Ymddiriedolaeth ar Lanerchaeron wedi bod o fudd i Geredigion, gan ddod ag ymwelwyr o bob cwr. Yn ogystal, mae 18 o bobol leol yn cael eu cyflogi yno, ac mae yna griw ffyddlon o wirfoddolwyr sy'n barod i roi help llaw.

Mae nosweithiau fel hyn o ddiddordeb mawr i'r aelodau, ac mae'n hyfryd cael ymateb ganddynt. Dangosodd Nicky ddarn o offer y daethpwyd o hyd iddo yn un o'r tai mas, a neb wedi gallu darganfod beth ydoedd. Roedd nifer o aelodau'r Gymdeithas â'u dwylo i fyny i gynnig yr ateb cywir, sef teclyn a oedd yn rhan o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd i odro ychydig dros genhedlaeth yn ôl.

Diolchwyd yn gynnes i Nicky Evans am noson ddifyr iawn. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 17eg yn yr Hen Neuadd, pan fydd Andrew Fleming yn sôn am y ffordd y byddai'r mynaich yn troedio o Ystrad Fflur i Rhaeadr. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Helen ac Euros, 52 Penbryn, ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bach Rhun Raymond. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr.

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

GORSAF BRAWF MOT
GAREJ BRONDEIFI
Heol Llanfair
Llambed
SA48 8JX
PEIRIANT GOLCHI CEIR POETH
AR AGOR
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn: 01570 422305
Ffôn Symudol:07974 422305
Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydlon a chyfeillgar
* Gwasanaethu ac Atgyweirio* Prisiau Cystadleuol am Deiars *
* Egsôsts * Batris * Brêcs * Ceir Newydd ac Ail-law ar werth *

Llanfair Clydogau

Grŵp Cerdded y Pentre

Trefnwyd prynhawn diddorol o gerdded yn yr Hafod ddydd Sul, Medi 27ain gan Eleri Davies, Pentre, a buom yn ffodus iawn i gael diwrnod gweddol sych. Daeth grŵp niferus ynghyd ym maes parcio'r Hafod i gael ein harwain gan John Glant. Roedd gwybodaeth John am yr ardal, yr hen blas a'r coedwigoedd yn eang, a phleser oedd cael rhannu ei wybodaeth a bod yn ei gwmni. Roedd pawb wedi mwynhau a wedi dysgu llawer. Diolch i Eleri am drefnu'r prynhawn ac am ein pic ar y maen ar ddiwedd y cerdded. Ar y ffordd adref roeddem i gyd yn barod i gael cwpaned neu lased bach i dorri syched yn Nhafarn Ffair Rhos.

Trip y Pentre

Aeth llond bws ohonom i Abertawe ddydd Sul 4ydd o Hydref ac aethom i'r Amgueddfa Arforol. Roedd pawb wedi synnu ei fod yn lle mor ddiddorol, gyda chymaint o arddangosfeydd a gwybodaeth a gwaith celf anhygoel yn atgyfnerthu rhai o'r syniadau a oedd yn cael eu harddangos. Aeth rhai ohonom i gerdded oddi amgylch y marina a galw yng Nghanolfan Dylan Thomas, lle arall sy'n llawn gwybodaeth am ein bardd enwog, ei fywyd, ei waith a'i ffrindiau a lle ceir cyfle i wrando ar Richard Burton yn adrodd darnau o Dan y Wenallt. Cymerodd rhai y cyfle i fynd i siopa.

Ar y ffordd adref cafwyd swper bendigedig yn y Plough yn Rhosmaen a phawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Guto Jones, Llanfair Fach ar ei lwyddiant yn yr arholiadau Lefel A a dymunwn yn dda iddo yn ei flwyddyn gyntaf yn y Brifysgol yn Aberystwyth.

Neuadd y Pentref

Mae ein neuadd wedi ei gwella o'r tu mewn ac o'r tu allan drwy gael ffenestri newydd a'r gwaith wedi ei wneud gan Linda a Lawrence Quelch. Diolch iddynt am eu gwaith graenus. Yn y dyfodol agos bydd gwaith yn dechrau ar godi yr hen lawr a gosod un newydd. Rydym yn gobeithio cwblhau y gwaith cyn diwedd mis Ionawr.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Nos Fawrth, Hydref 20fed daeth nifer fawr o bobol ynghyd i wrando ar ein siaradwr gwadd a ddaeth i siarad â'n cymdeithas hanes ar ran Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed am hanes ardal Llanfair. Daeth â mapiau a llawer o lawysgrifau a gwybodaeth i ni i ddangos sut i fynd ati i gael hanes ar y we ac o'r swyddfa yn Llandeilo. Noswaith ddiddorol a diolch i'r merched a fu wrthi yn paratoi paned o de a chacen flasus.

Beth am y dyfodol?

Edrychwn ymlaen at y canlynol sydd wedi eu trefnu cyn y flwyddyn newydd.

Nos Sadwrn Tachwedd 21ain Caws a Gwin

Nos Wener Tachwedd 27ain Cinio Cyngor y Gymuned.

Canu Carolau - nos Lun Rhagfyr 21 ain a nos Fawrth yr 22 ain

Cyhoeddi llyfr -
'Dyddiaduron a Cherddi Defi Lango'
(y Ffermwr diwylliedig)
gan Goronwy Evans
Gwahoddir noddwyr -
Pris y llyfr yw £7.99,
ond **£6.99** i'r noddwyr.
Argreffir yr enwau yn y llyfr.
Enw, cyfeiriad a'r arian i:-
Llinos Davies, Llwynfedw, Llanybydder
neu Ann Lewis, Bronwydd, Heol y Bont, Llanbedr Pont Steffan
erbyn Tachwedd 21ain.

Rhifyn mis Rhagfyr
Yn y Siopau
Rhagfyr 3ydd
Erthyglau i law erbyn
Tachwedd 19eg
Newyddion i law erbyn
Tachwedd 23ain

Mae CLONC ar werth yn:
Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambed
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Garej LSS, Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llangybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Llangybi a Betws

Hamdden

Croesawodd y Llywydd Dilys Godfrey y gŵr gwadd sef Mr John Griffiths a'r aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor newydd. Cafwyd cyfarfod diddorol iawn, hapus ac hanesyddol yn ei gwmni. Sôn y bu am ei blentyndod yn Llangeitho. Daeth ag atgofion lu yn ôl i lawer am eu dyddiau cynnar hwythau. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch gan Llinos Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 6ed pan rydym yn disgwyl ymweliad gan aelod o dîm Henoed Ceredigion. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Joyce Harris a Liz Holgate.

Ysgol y Dderi

Eleni eto dilynwyd y drefn arferol trwy gynnal ein cwrdd diolchgarwch yn yr ysgol ac yna allan yn ein cymunedau. Bu adran y Cyfnod Sylfaen yng Nghapel Mair, Llanfair Clydogau a'r adran Iau yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi. Dymuniad y plant oedd bod yr arian yn mynd tuag at Apêl 'Tŷ Hafan'. Casglwyd swm o £142.90 tuag at yr achos.

Cafwyd wythnos fathemateg nôl ar ddechrau mis Hydref gyda'r plant yn cael tasgau mathemategol i'w cyflawni. Cafwyd tasgau amrywiol yn ystod yr wythnos, o fesur arwynebedd tywel i fesur cynhwysedd y botel fwyaf. Derbyniodd yr holl enillwyr dystysgrifau mewn seremoni wobrwyo ddydd Gwener y 9fed o Hydref.

Yr un diwrnod fe wnaeth yr ysgol gyfan ddathlu Diwrnod T.Llew Jones. Roedd pawb wedi mwynhau gwisgo fel y cymeriadau o'i straeon ac wedi cael llawer o hwyl yn dysgu am hanes yr awdur enwog.

Aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i wylio sioe Sbri-diri yn Llanbedr Pont Steffan brynhawn dydd Mawrth y 13eg o Hydref. Roedd pawb wedi mwynhau y canu a'r dawnsio yn fawr iawn, yn enwedig Kaitlyn; cafodd hi'r cyfle i wisgo fel Jini o Bentre Bach.

Bu disgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar yn yr Ŵyl Rygbi. Cafwyd hwyl yn chwarae gêmau amrywiol yn erbyn ysgolion arall y cylch.

Rydym ar hyn o bryd yn y broses o gasglu bocsys Nadolig i'w danfon i Romania. Bydd y bocsys yn cael eu casglu gan Richard Burgess ar y 19eg o Dachwedd. Mae croeso i chwi ddanfon bocs atom i'r ysgol.

Mae Mrs Ann, Helen Duffee, Janet Farrow, Arianna, Rhiannon, Jade a Seamus ar hyn o bryd yn yr Eidal yn Agliana. Maent wedi mynd yno er mwyn atgyfnerthu ein cysylltiadau rhyngwladol gyda phrosiect Comenius. Maent i gyd yn cael amser da iawn yno.

Rydym fel ysgol wedi bod yn cymryd rhan yn Her yr Esgid Aur drwy ddefnyddio dulliau cynaliadwy o gludiant i deithio i'r ysgol yn ystod wythnos Cerdded i'r Ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau cerdded, seiclo, sgwtio, parcio a cherdded, rhannu car, a chymryd bws i ddod i'r ysgol. Rydym wedi cadw data yn ystod yr wythnos ac wedi bod yn cymharu ein perfformiad dros yr wythnos gyda dosbarthiadau eraill yn yr ysgol, yn ogystal ag ysgolion eraill.

Mi fydd Sêl Cist Car yn y Neuadd Goffa ar yr 21ain o Dachwedd. Os oes angen bwrdd ar unrhyw un, a wnewch chi gysylltu â Helen ar 01570 493568.

Cellan

Cwsmeriaid y Fishers Arms, Cellan yn cyflwyno siec am £6,129.19c. i Mr. Simon Holt, Ymgynghorydd Oncoleg, Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli, (pedwerydd o'r dde). Mae'r swm hwnnw'n cynnwys rhoddion gwerth £2,516 gan *Biffa Waste Services* Llanbed a gan Gareth Jones (pedwerydd o'r chwith) o Fanc Barclays a gododd £750 gyda swm cyfatebol oddi wrth y Banc.

Ffarmers

Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Kevin a Nicola Morgan, 2 Bryn Twrch ar enedigaeth mab bach - Hari Owen – brawd i Rhodri a Ifan. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Brysiwch Wella

Estynnwn ein cyfarchion i David Morgan, Plasnewydd sydd newydd dderbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Llanelli, ac i Gwyneth Evans, Gwladeithe sydd hefyd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonynt.

Diolch

Dymuna Ray Davies, Peronne ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn marwolaeth ei brawd, William Davies.

Hanner Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau i Daniel Davies, Llys Helen, ac Eleri Davies, Troed y bryn ar redeg hanner marathon Caerdydd ddydd Sul, y 18fed o Hydref. Roedd 11,000 yn rhedeg yn y ras eleni, a thyrfa fawr yn gwylio. Diwrnod i'w gofio i'r holl gystadleuwyr.

Neuadd Bro Fana

Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y gaeaf, cofiwch felly roi nodyn yn y dyddiadur. Cynhelir cyngerdd gydag Aled Edwards, Cilycwm a Chôr Tŷ Tawe o dan arweiniad Helen Gibbon ar yr 21ain o Dachwedd yn dechrau am 7.30. Fel arfer, bydd Cyngerdd a Noson o Garolau yn y Neuadd y nos Sul cyn y Nadolig, ac eleni cawn gwmni y baritôn Kees Huysmas. Bydd noson 'Bingo' yn y Neuadd ar nos Wener yr 11eg o Ragfyr gyda Bevan Williams a Jean Evans, Pumsaint yn llywio'r chwarae – tipyn o hwyl mae'n siŵr! Mae yna nifer o weithgareddau arall – cadwch lygad ar eich papur bro am fanylion. Gallwch ffonio'r Ysgrifennydd ar 01558 650507 os am archebu tocynnau.

Ymchwil Cancr UK / Cymru

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at Ymchwil Cancr UK / Cymru, ac i'r canlynol am gasglu – Mair Williams, Rhydlydan; Mary Brighouse, Gwarallt; Jean Evans, Penarth; Marina Thomas, Caerdderwen; Alun Williams, Maesteg; Eirwyn a Heulwen Jones, Aberbranddu; Eleri Davies, Cothi Vale; Ethel Lewis, Derwen Fach; Ethel Davies, Llys Helen a Heulwen Lloyd, Penybont. Casglwyd cyfanswm o £558.61.

Y Dreigiau yn Nairobi

Dros yr haf, gyda'r tymor rygbi ar ben, a mis o wyliau yn ein disgwyl, fe benderfynodd criw ohonom o glwb rygbi Dreigiau Casnewydd Gwent, fynd ar daith hollol wahanol i'r arfer. Mentrom i Ddwyrain Affrica i brofi diwylliant cwbl unigryw, ac i gynnig ein gwasanaeth i rai o blant tlawd y wlad. Gyda swm annigonol o £500, a rhyw 150 kilo o ddillad yn rhoddion, ar y 14eg o Fehefin 2009, gadawsom Heathrow ar ein taith. Dan Martin (y ffisio), Will Precious (y dadansoddwr), Julie Hooper (y masseuse), Richard Parks a finnau oedd y tîm a'r bwriad o gyfrannu mewn unrhyw ffordd y gallem at wella bywydau'r plant yn Nairobi. Dyma rai o'n profiadau:

Hedfan i brifddinas Cenia, sef Nairobi, sydd â phoblogaeth o dros dair miliwn o bobl, ac sy'n ymestyn dros arwynebedd o 270 milltir sgwâr - (ardal sylweddol o ystyried fod y ddinas wedi datblygu o storfa syml a sefydlwyd ym 1899 ar y rheilffordd yn uno Uganda a Mombasa ar yr arfordir dwyreiniol). Tyfodd y ddinas yn gyflym o amgylch gweinyddiaeth y Gymanwlad, a thwristiaeth. Roedd y rhan yma o gyfandir Affrica yn denu ymwelwyr i hela'r 'cathod' mawr ac anifeiliaid 'rhyfedd' arall y wlad. Daw enw'r ddinas o ddisgrifiad y Maasai o'i safle, sef "ardal y dyfroedd tawel", ac fe'i lleolir rhyw bum mil a hanner o droedfeddi uwchben lefel y môr.

Ar fore cyntaf ein hymweliad, mynd o'r hostel lle roeddem yn aros i Ganolfan Gristnogol Peter Koboshe i gwrdd â'r bobl oedd wedi trefnu'r daith ar ein rhan. Yn ogystal â Peter, cynigodd Carol, Cobole, Jose ac Erico groeso arbennig i ni ar ein hymweliad cyntaf. Cawsom ein cludo ar unwaith i ysgol gynradd Spring Valley, lle roeddem yn mynd i dreulio y rhan fwyaf o'r wythnos yn adeiladu toiledau a gwneud amryw o weithgareddau gyda'r plant.

Mae'n werth sôn yn gyflym am y system drafnidiaeth yn Nairobi. Heb ddadl, dyma'r profiad mwyaf brawychus 'dw i erioed wedi ei brofi - gan gynnwys naid bynji a neidio allan o awyren! Yr unig reol sy'n bodoli ar y ffyrdd yw gyrru ar yr ochr chwith, ac mae honno'n rheol ddigon llac ar adegau! Cofiwch, nid dim ond y ceir a'r bysiau sy'n cymryd rhan yn yr anrhefn yma. Ychwanegwch y cannoedd o gerddwyr, a'r dynion diri yn tynnu pob math o geirt ar hyd yr heolydd gwaethaf y gellir eu dychmygu, a dyna'r rysáit, mae'n siŵr, am y llanastr mwyaf erchyll a all ddigwydd ar briffordd! Mae'n siŵr mai dim ond yng Nghenia y mae 'speed bumps' ar y palmentydd i rwystro gyrwyr rhag eu defnyddio i oddiweddid!

Ta beth, Gweinidog Ngangi oedd enw'r prifathro oedd yno i'n croesawu yn yr ysgol. Dyn mawr, llawen a chroesawgar, ac ynghyd â'i wraig yn gyfrifol am dros ddau gant ag ugain o blant yn yr ysgol. Esboniodd sut y ffurfiodd e'r ysgol rhyw ddeng mlynedd yn ôl i roi addysg yn rhad ac am ddim i blant o gefndiroedd anodd. Rhai o'r teuluoedd wedi eu heffeithio gan Aids, eraill gan gyffuriau, ac eraill gan ddiffyg gwaith a oedd yn ei dro yn arwain at gamluniaeth yn y plant. Y bwriad oedd creu hafan ddiogel ar gyfer yr ieuenctid. Rhywle i ddianc rhag eu problemau a llenwi eu boliau ddwywaith y dydd (braint na ellir ei gymryd yn ganiataol yn Nairobi).

Soniodd y Gweinidog am ei gynlluniau i ymestyn yr ysgol er mwyn cynnwys rhagor o blant yn y dyfodol agos. Mae'n debyg bod yna dros chwe chant o rai ifanc yn yr ardal yn awyddus am addysg, ond dim ond y lleiafrif lwcus sy'n cael y cyfle i fynychu'r ysgol. Gyda rhai amcangyfrifon yn disgwyl i boblogaeth y ddinas gyrraedd pum miliwn erbyn 2015, mae pwysigrwydd gwella cyfleoedd y rhai ifanc nawr yn bwysicach nag erioed, yn enwedig o ystyried y gorboblogi a'r tlodi amlwg sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Er gwaethaf hyn, neu efallai oherwydd hyn, ni welais erioed griw o blant hapusach, na rhai mwy parod i ddysgu. Gydol yr wythnos, ni welais mo'r un plentyn yn cecran, yn ymladd, yn bwlio nac yn llefain (er gwaetha'r ffaith eu bod nhw'n rhedeg o amgylch yn droednoeth). Roedd yn amlwg o'r dechrau eu bod yn caru dawnsio a chanu, ac yn awyddus i'n cynnwys ni yn eu gweithgareddau, ac felly y bu am yr wythnos gyfan.

Uchafbwynt yr wythnos i mi yn bersonol oedd dysgu geiriau 'Calon Lân' a 'Chwm Rhondda' i'r disgyblion a'r athrawon! Am fod eu hiaith nhw'n seinegol, ni chefais unrhyw drafferth o gwbl i'w cael i ynganu'n gywir, ac am eu bod nhw'n gystal cantorion, cyn pen dim roedd yr ysgol yn atseinio gydag emynau Cymreig!

Gwaith bôn braich oedd yn ein disgwyl bob prynhawn wrth i ni fynd ati i gymysgu morter, cludo cerrig a meini, dadlwytho estyll, neu unrhyw waith arall a oedd yn ein galw. I mi, roedd yn fraint arbennig cael cydweithio a chymdeithasu gyda rhai o'r gweithwyr lleol a gweld y toiledau newydd yn datblygu.

Cawsom groeso arbennig bob nos wrth i ni anelu tuag at ben pellaf y ddinas i Ysgol Uwchradd Daghoretti i ddysgu hanner cant o fechgyn - rhwng 14-18 mlwydd oed - am rai o sgiliau sylfaenol gêm y bêl hirgron. Yr oedd pob un yn barod i wrando ar yr hyn roedd gennym i'w ddweud, ac roedd y brwdfrydedd yn amlwg o'r dechrau. Yn anffodus, roedd angen gwaith sylweddol i godi safon y chwarae, felly dyna fu tasg y pedwar ohonom am ddwy awr bob nos, a phleser oedd gweld yr hyn a ddysgwyd yn dwyn ffrwyth yn eu gêm ar y nos Iau. Daeth e-bost oddi wrth gapten y tîm yn ddiweddarach yn diolch i ni am ein hymdrechion, ac i ddweud fod y tîm wedi profi'r tymor mwyaf llwyddiannus yn eu hanes ers ein hymweliad!

'Dw i wedi bod yn ffodus i deithio o amgylch y byd drwy chwarae rygbi, a phrofi diwylliannau amrywiol yn ystod fy ngyrfa, ond yn sicr, dyma'r profiad gorau o'r cyfan. Fedrwn i ddim gobeithio cwrdd â phobl mwy croesawgar, caredig a hapus, a'r bwriad erbyn mis Mai nesaf yw codi digon o arian i ddechrau adeiladu estyniad i'r ysgol er mwyn cynnig addysg i ragor o blant yr ardal ddifreintiedig yma o 'Nairobi'

Rhodri Gomer Davies

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Gwennan Davies**
Oed: 23
Pentref: Llanwenog
Gwaith: Swyddog Datblygu Menter Aberystwyth
Partner: Carwyn 'Jinx'!
Teulu: Dad, Mam a Siwan.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd lan i dopau Maesnewydd i hedfan awyrennau 'da Dad.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I alw 'chi' ar bobl sy'n henach na fi.

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a glywaist erioed?
Dwi'n casáu brawddegau bachu. Rwy'n chwerthin ar ben y person!

Beth yw dy lysenw?
Gwens.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Pobl yn mynd yn ddwfn i'w pocedi at achosion da.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Anodd ffindio lifft adre ar ôl noson mas.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Cael 'laser eye surgery' ac archebu ticed i fynd i deithio.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Corynnod a damweiniau!

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Pan glywes i fod un o fy ffrindiau gorau yn disgwyl. Ron i mor falch drostyn nhw.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar wyliau yn Gran Canaria – 'Sun stroke' odd e fi'n credu!!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Gyda Mam siŵr o fod - ni'n dwy'n rhy debyg!

Pryd oeddet ti'n borcyn diwethaf o flaen person arall?
Yn cael spray tan ryw fis yn ôl!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael cynnig swydd gyda Savills sydd wedi newid fy mywyd proffesiynol.

Ac yn bersonol?
Cael pedair gradd A yn lefel A a phrynu tŷ!!

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Ma sawl beth yn fy mywyd falle na ddylen i wedi neud ond sai'n difaru dim - rhaid i bawb ddysgu o'u camgymeriadau.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Cerdded rownd y bloc pan ma'r whant yn codi!

Beth yw'r cyngor gorau a gest ti?
Parcha dy hunan ac fe wneith pawb arall dy barchu di.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Ymuno â Chlwb Llanwenog – y peth gore nes i erioed. Mae e wedi rhoi cymaint o gyfleoedd a phrofiadau i fi!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus fy myd!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Renault Megane.

Beth yw dy hoff ymadrodd?
Un da!

Beth yw dy hoff arogl?
Cinio Nadolig.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Adre ar y soffa yn gwylio teledu.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
525.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Meleri Williams.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Licen i fod ychydig yn fyrrach ond dwi'n iach a 'na beth sy'n bwysig.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Y Laptop achos ma llawer o luniau arno sy'n dod ag atgofion da iawn.

Oes yna rywbeth na elli ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Canu ar mhen fy hunan!

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Digon o gwsg – fi werth dim os na fydda i wedi cysgu digon.

Pwy sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Mam - fydden i wedi rhoi'r gorau iddi yn yr ysgol a'r coleg sawl gwaith petai mam ddim yna i annog fi mhla'n!

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Dal gyda Savills efallai yn gweithio fel Cynllunydd.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Fy nheulu a'm ffrindiau

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Dad a Mam yn ddylanwad da. Os oes angen cyngor dwi'n eu holi nhw - a ma sawl person alla i weud sy'n ddylanwad drwg arna i!!

Y gwyliau gorau?
Sweden gyda'r ysgol – bythgofiadwy a'r Rali Ewropeaidd i'r Almaen. Sa i'n credu ga i fyth brofiadau tebyg iddyn nhw – gwyllt!

Arferion gwael?
Dim tynnu colur cyn mynd i'r gwely.

Unrhyw dalentau cudd?
Ambell waith dwi'n gwybod beth ma person yn mynd i'w ddweud cyn iddo agor ei geg!

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Hoffwn hedfan adre ar ôl gwaith gan fod hewlydd a gyrwyr araf Aberystwyth yn hala fi lan y wal!

Nesaf: **Dyfan Evans**, Harford.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

9		5		3		4		6
6	7						5	8
	6			1			4	
		2	5		9	6		
	9			7			8	
3	8						6	4
4		1		6		9		3

Atebion Swdocw mis Hydref: Llongyfarchiadau i **Avril Jones, Troed y Bryn, Llanwnnen** a diolch i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Mrs P. Buckley, Bryn Tegwel, Llambed; Jean Morgan, Bryn-yr-Eglwys, Llambed; Gwenda Davies, Fferm Maescadog, Caio; Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Augusta Davies, Kings Mead, Llambed ac Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder.

3	2	8	4	1	7	5	6	9
1	4	6	8	5	9	7	2	3
7	9	5	6	3	2	1	4	8
4	6	3	1	7	5	9	8	2
5	1	9	3	2	8	4	7	6
2	8	7	9	6	4	3	1	5
6	3	4	2	9	1	8	5	7
8	7	2	5	4	3	6	9	1
9	5	1	7	8	6	2	3	4

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Bu'r Adran Iau i gyd lan yn chwarae Rygbi ar gaeau Ysgol Gyfun Llambed ddechrau'r mis.

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Undodaidd Capel y Groes. Thema'r gwasanaeth oedd Lleoedd Arbennig. Gwnaeth pawb sôn am eu lle arbennig hwy, boed yn yr ardd, sied, ystafell wely, ayyb. Roedd casgliad y noson yn mynd tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i'r Parch. Cen Llwyd am ei anerchiad yntau. Diolch hefyd i swyddogion ac aelodau'r capel am eu cydweithrediad yn gadael i ni fenthyg yr adeilad.

Ddydd Gwener, Hydref 9fed yn rhan o'r gweithgareddau i gofio am yr awdur T. Llew Jones, fe wisgodd nifer o blant yr ysgol fel unrhyw gymeriad o un o'i lyfrau.

Rydym yn croesawu Miss Rhian Cooper, o Goleg y Drindod atom fel myfyrwraig yn nosbarth y Babanod a bydd gyda ni am rai wythnosau tan ganol mis Rhagfyr. Gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith.

Bu dosbarth Mrs Llwyd yn Sioe Sbri-diri yn Ysgol Gyfun Llambed yn ystod y mis. Gwnaeth pawb fwynhau'r canu bywiog gan Gwenda Owen a'r criw. Hyfryd oedd cael cwmni Mr Urdd a Sali Mali ar y diwrnod hefyd!

Mae'n holl bwysig gwybod rheolau'r ffordd fawr, a do, bu'r ysgol gyfan yn gweld Sioe Diogelwch ar y ffordd gan y Brodyr Gregory yn Ysgol Cwrtnewydd.

Rydym wedi derbyn bylbiau Cennin Pedr gan Gyngor Cymuned Llanwnnen. Rydym wedi bod yn brysur iawn yn eu plannu o gwmpas yr ysgol. Bydd yn hyfryd eu gweld yn y gwanwyn wedi blodeuo!

Yn ystod yr hanner tymor yma cafwyd cwmni Mr Morlais Davies a Mrs Sue Evans yn rhan o staff yr ysgol. Dymuniadau gorau i chwi i'r dyfodol.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Shan Davies ein cogyddes a dderbyniodd llawdriniaeth i'w llaw yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan,

Mae'r Cylch Ti a Fi yn mynd o nerth i nerth. Mae croeso cynnes i unrhyw o 0-4 oed ddod i'r ysgol bob prynhawn dydd Mercher i gymdeithasu rhwng 1:15 a 3:15y.p. Am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs Caryl Rosser ar 01570 480203.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Eleanor a Barry ar enedigaeth merch fach, Catrin Medi.

Hefyd, llongyfarchiadau i Kelly a Ceri ar enedigaeth merch fach, Tiffany Nadele ar 6ed o Hydref. Pob bendith hefyd iddynt yn eu cartref newydd yng Nghwrtnewydd.

Hanner Marathon

Bu Shan Davies, Alan Thomas, Tracy a Mark Jenkins yn rhedeg Hanner Marathon Caerdydd ddydd Sul, Hydref 18fed. Rhedodd y pedwar mewn amser da. Casglwyd swm arbennig o dda at Ffagl Gobaith. Da iawn chi.

Sefydliad y Merched, Llanwnnen

Dechreuodd Sefydliad y Merched ar dymor yr Hydref gydag ymweliad â dwy Oriel Arlunio. Yn gyntaf, i Henllan i ymweld ag Oriel Diane Mathias ac yna i Gastell Newydd Emlyn i Oriel Helen Elliott. Mae Diane yn arlunio mewn modd traddodiadol a Helen mewn steil hollol wahanol. Roedd yna dipyn o wahaniaeth rhwng golygfeydd tawel, gwledig Diane a lliwiau llachar Helen Elliot, - y ddwy yn gampster yn eu dull eu hunain. Daeth y prynhawn i ben gyda swper yn y Gwarcefel Arms, Prengwyn.

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ym mis Hydref gyda Mrs Ann Jones, Llanddewi yn bresennol. Ail etholwyd y swyddogion i gyd ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am gymryd at eu gwaith am flwyddyn arall, yn enwedig i'n Llywydd Mrs Gwen Davies am ei harweiniad clir bob amser.

Diolchodd Gwen i Mrs Ann Jones am ddod atom ac am drefnu Cwis Byr i'r aelodau. Enillwyd y gystadleuaeth gan Mrs Alice Davies.

Diolch

Dymuna Hyw Davies, Ornant a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl sef Mrs Eva Davies, Abernant, Llanwenog gynt.

Diolch i bawb a alwodd, ac am y llu o gardiau, y galwadau ffôn, y blodau a'r bwydydd o bob math a dderbyniwyd.

Gwerthfawrogwn y gofal a dderbyniodd gan Ddoctoriaid a Nyrsys Meddygfa Brynmeddyg, Llanybydder; Cerecare, Llambed a'r Gwasanaeth Ail-alluogi, Aberaeron. Diolch hefyd am y gofal a dderbyniodd Eva tra bu yng Nghartref Hafan Deg, Llambed yn gynt eleni.

Rhaid yw rhoi diolch arbennig i'r Parchedig Bill Fillery am y cymorth a dderbyniodd Hyw a Kay ganddo yn ystod salwch Eva ac yn dilyn ei marwolaeth. Gwerthfawrogwn ei gymorth yn fawr iawn. Hefyd, hoffem ddiolch i wardeiniaid ac aelodau Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog am y gwaith a wnaethant cyn, yn ystod ac ar ôl yr angladd. Diolch o galon i chi gyd. Diolch yn fawr iawn i brifathrawes a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanwenog am fodloni i ni gynnal te yr angladd yn yr ysgol.

Cydnabyddwn gyda diolch y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Brynmeddyg, Llanybydder ac at Eglwys Llanwenog.

Diolch i bawb sy'n dal i alw yn Or-nant. Mae cael cymorth ffrindiau a chymdogion yn galondid ar adeg mor anodd.

Diolch i bawb am bopeth , gwerthfawrogwn pob dim.

Yn ystod Gwasanaeth Blynyddol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar fe drosglwyddwyd y Llywyddiaeth oddi wrth Mrs Ann Harries, Capel y Graig, Llandysul i'r Cyng Haydn Richards, Capel y Groes, Llanwnnen.

Diolch

Dymuna Haydn, Lowtre ddiolch o galon am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Llyfr Newydd

Y Parch Eric Jones yn cyflwyno copi o'i lyfryn newydd 'Y Tir Da' i Elin Jones AC yn ystod ymweliad swyddogol Llywyddion y GA ag Urdd y Benywod sef Parch Bob Wightman a'i wraig Mrs Mary Whightman a Cheredigion. Mae'r llyfryn yn rhoi hanes a lluniau pob un o gapeli yr Undodiaid yng Nghymru.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

DAVID G LLOYD
Gemyddion a Thremofyddion
Sgwâr Harford Llanbed
CYFARCHION PENBLWYDD
Yn 80 oed Tachwedd 22ain 2009

Â chwyddwydr ar ei lygad
'Rwy'n cofio David Lloyd,
Yn sbio ar y perlau;
Oddeutu'r deugain oed.

A heddiw maent yn elwa
O'i lafur diwyd hir.
I'w siop daw gwŷr bonheddig
Sy'n enwog yn y sir.

Gwasanaeth teg geir yno -
Cwrteisi heb ei ail.
Aeth neb drwy'r drws yn berchen
Ar ddim o safon wael.

Awrleisiau sydd yn tician
Mor brydferth ar y clyw,
I'w dywys i'r dyfodol -
A'r cant, os myn ei Dduw.

Beryl Davies
Llanddewi Brefi

Y diweddar Jack Oliver yn cyfeirio at "Gemyddion Llambed" yn ei benillion i gloc tref Llanbed. Y nhw wrth gwrs oedd yn gyfrifol am gadw'r cloc i fynd drwy ddringo i fyny i'r entrychion i wneud hynny.

CLOC TREF LLANBED
gan Jack Oliver

Croeso adref gyfaill annwyl
Ar ôl bod yn Llundain draw,
Gan fy mod mor agos iti
'Rwyt yn haeddu ysgwyd llaw.

Clywais fod Gemyddion Llambed
Wedi gwared oll o'r stoc,
I drigolion hwnt ac yma,
Na fu 'rioed yn berchen cloc.

Er mwyn popeth Cloc Llanbedr,
Aros mwy yn yr un fan,
Tinc dy gloch sydd fil mwy peraidd,
Ym mhob clyw na Chloch y Llan

Dyhead neu Freuddwyd

gan Alun Jones, Parcyrhos

Wrth wneud ymchwil ar gyfer fy ysgrif flaenorol ar y rheilffordd, cofiais fod Mam a Mrs. Edwards, Ddeunant wedi mynd i Ysgol Uwchradd Aberaeron ac roeddent yn teithio ar drên bach Aberaeron, fel y'i gelwid yn lleol. Beth oedd yn ddiddorol tua 1904/05 oedd fod 'na ddau brosiect ar waith i gysylltu trefi Llambed ac Aberaeron a Llandeilo. Ceir hanes mor bell yn ôl ag 1860 fod diddordeb i gysylltu'r trefi â'r rheilffordd. Arweinwyr y fenter am reilffordd ar ochr Sir Gaerfyrddin oedd Sir James Hamlyn Williams, Sir James Hill-Jones a John Morgan Davies a John Charles Harford, Tre Herbert, Davies-Evans, Price Lewis a Capt. Herbert Vaughan yn Sir Aberteifi.

Gwyddom fod cwmni peirianwyr S.W Yockney o Lundain wedi cyflwyno dau gynllun ar gyfer y Comisiwn Rheilffordd yn 1904/05 am lein o Lambed i Aberaeron a Llandeilo. Mae hanes wedi cadarnhau fod tirfeddianwyr Sir Aberteifi, gan gynnwys Cyngor Tref Llambed ac Aberaeron wedi bod yn llawer mwy hael â'u harian er mwyn ariannu'r cynllun rheilffordd o Lambed i Aberaeron. Wrth wneud ymchwil yn archifdy Caerfyrddin, a diolch iddynt am yr hawl i ddefnyddio'r hanes, gwelais fod y peirianwyr Yockney wedi gwneud dau gynllun ar gyfer lein Llambed - Llandeilo a'r ddau yn mynd drwy dwnnel dan Graig Twrch. Roedd y cynllun cyntaf yn golygu gwneud trac o Gwmann lan drwy Cellan, Llanfair Clydogau ac i Bont Llanio i ymuno â'r lein M-M o Gaerfyrddin i Aberystwyth gyda chyffordd ger Cellan a thrac drwy Graig Twrch am Lanycrwys, Pumsaint ac i Landeilo. Roedd yr ail gynllun yn cynnwys gwneud trac o Lambed a fyddai'n cwrdd â thrên Aberaeron drwy Gwmann am Gellan a Chraig Twrch a dilyn mwy neu lai yr un patrwm â'r cynllun cyntaf. Lled y trac fyddai 4 troedfedd 8 modfedd a hanner a'r pellter o Landeilo i Lambed yn 22milltir 6 ystaden (furlong) a 4.75 chain. Ceir pris manwl a'r gost wedi ei rhannu yn bum rhan: Rheilffordd 1. Pymtheg milltir chwech ystaden, 9.8 chain o orsaf Llandeilo yn mynd i'r gogledd ddwyrain am Bont Dulais ac yna am y gogledd tua Glandulas, Maerdy ac Eglwys Taliaris tuag at Bont Penbwl ac am y gogledd at Halfway a Thalyllychau, ac yna i'r gogledd ddwyrain am Ddyffryn Cothi gan groesi'r hewl dyrpeg rhwng Llansawel a Chaio ac ymlaen am Bumsaint gan wyro i'r gogledd orllewin gan groesi tyrpeg Llanbed – Llanymddyfri ger Harford ac ymlwybro tua Ffaldybrenin lle byddai gorsaf Rheilffordd 1. Dyma'r rhan fwyaf diddorol i ddarllenwyr Clonc, sef y chwe milltir i Gwman gan gynnwys twnnel a thŷ'r gofalwr a chroesfan y rheilffordd (level crossing). O Ffaldybrenin byddai'r trac yn gwyro i'r gogledd am Lanycrwys tua Bwlch Blaen Coru drwy dwnnel 575 llath gan ymddangos wedyn is law Esgairlas ar ei ffordd lawr am Gellan a ffermydd Gelli-Gaer, Tangaerfawr, Tyncoed, a Lanlas Isaf yng Nghwmann. Wedyn, âi drwy dir Coedmor, Feilndre a thrwy ganol Heol Hathren ychydig yn uwch na Rhoslwyn ac i lawr i Rhosfach yn Nghwmann. Gan gynnwys y twnnel, dyma'r rhan fwyaf drudfawr i'w adeiladu. Amcangyfrif fod y gost tua naw mil a hanner o bunnoedd y filltir.

Rheilffordd 3 a 5 - Mae'n ymddangos y byddai caeau Penbont yng Nghwmann fel cyffordd sbageti i ymuno â thrac yr M+M o Gaerfyrddin i Aberystwyth a thrac newydd rheilffordd Aberaeron. Y gwaith mwyaf ar y rhan yma oedd codi arglawdd i gysylltu â'r uchod.

Roedd Rheilffordd 4 yn ymwneud â chysylltu'r trac yn Llandeilo â Rheilffordd Dyffryn Tywi.

Dyma grynodeb o gost y cynllun. Rheilffordd 1 - £80, 346.00, Rheilffordd 2 - £56, 698.00, Rheilffordd 3 - £9, 755.00, Rheilffordd 4 - £ 2, 562.00, Rheilffordd 5 - £4, 498.00. Cyfanswm - £153, 853.00. Felly, ar gyfartaledd roedd y gost tua saith mil o bunnoedd y filltir. Bargen o gymharu ag heddiw!

Os yw darllenwyr Clonc yn gwybod y gair Cymraeg am chain, byddai'n dda clywed ganddynt.

Sali Mali'n 40 oed!

Mae yna wraig boblogaidd sy'n fytholwyrdd ac ifanc yn 40 oed! Pe bawn i'n dweud ei bod yn hoff iawn o wisgo ffrog oren a bod ei gwallt du mewn bynsen ar ei phen, mae'n siŵr y byddech wedi dyfalu ei henw erbyn hyn. Sali Mali, un o gymeriadau mwyaf hoffus Cymru, sy'n dathlu'r deugain eleni. Yn 1969 aeth yr awdures a'r addysgwraig Mary Vaughan Jones ati i lunio cyfres ddarllen wreiddiol i blant Cymru ac ers hynny mae yna filoedd o'i llyfrau wedi eu darllen gan genedlaethau o blant. I lawer un, dyma'r llyfr darllen cyntaf go iawn yn yr ysgol. I nodi achlysur ei phen blwydd arbennig, mae Gwasg Gomer wedi cyhoeddi dau lyfr bwrdd dwyieithog newydd, sef Nadolig Sali Mali a Gwyliau Sali Mali. Cyflwynir Sali Mali a'i ffrindiau i gynulleidfa ifanc iawn yn y llyfrau gair a llabed hyn. Bydd bysedd bach wrth eu bodd yn troi'r dalennau trwchus ac yn dysgu geiriau am y Nadolig a'r gwyliau. Clywir y cwestiwn 'Ydych chi'n barod ar gyfer y Nadolig?' yn aml yn ystod tymor yr ŵyl a'r cwestiwn ar glawr Nadolig Sali Mali yw 'Ydi popeth yn barod ar gyfer Nadolig Sali Mali?' O dudalen i dudalen enwir y pethau a gysylltir â'r Nadolig ac o gyrraedd y dudalen olaf gofynnir cwestiwn arall sef 'Ydi Sali Mali wedi anghofio rhywbeth?' O godi'r llabed, fe welir ffrindiau Sali - Jac Do, Jac y Jwc a Tomos Caradog. Yr un patrwm a ddilynir yn y llyfr Gwyliau Sali Mali.

Er ein bod yn cysylltu'r cymeriadau Sali Mali a Jac y Jwc bellach, mae'n werth nodi nad oedd Sali Mali wedi cyfarfod â Jac y Jwc nes i Siân Teifi eu cyflwyno i'w gilydd yn y cyfresi teledu poblogaidd a blaengar ar S4C yn y nawdegau hwyr. Cyn hynny byw ar wahân yn llyfrau Cyfres Dau oedd Jac y Jwc tra roedd Sali Mali yn byw mewn un llyfr clawr oren yng Nghyfres Darllen Stori. Ond wedi i'r ddau gyfarfod a chyflwyno eu cyfeillion i'w gilydd, dyna wawrio ar fyd na welwyd mo'i fath yng Nghymru. Erbyn hyn mae rhaglenni Sali Mali a chyfres 'Pentre Bach' ar y teledu yn ffefrynnau gan blant Cymru a Chanolfan Pentre Bach yng Ngheredigion yn atyniad gwych i blant (ac oedolion) fwynhau byd Sali Mali i'r eithaf.

Pen blwydd hapus iawn Sali Mali – a hir oes!

Y Plygain

Cynhelir gwasanaeth plygain unwaith eto eleni yng nghapel Coleg Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, a hynny ar nos Lun, 7 Rhagfyr, am 7.00 o'r gloch. Cenir yr hen garolau Cymraeg traddodiadol yno, ac mae fformat y gwasanaeth yn un hyfryd dros ben.

Mae'r carolau glywch chi mewn gwasanaeth plygain yn unigryw i ni'r Cymry. Mae gennym ni ein cerdd dant a'n cynghanedd, adrodd pwnc, a hefyd ein carolau plygain sy'n rhoi stamp gwahanol arnom ni fel cenedl. Dechreuir y gwasanaeth gyda fersiwn talfyredig o'r Hwyrol Weddi. Yna bydd y sesiwn garolau yn dechrau. Canu digyfeiliant yw hwn ac mae dwy rownd (neu ddau gylch) o ganu. Yn y cylch cyntaf mae trefn pethau'n weddol anffurfiol gan nad oes rhaglen i'r noson. Ond fel arfer plant sy'n agor y sesiwn garolau, wedyn y bobol ifanc, wedyn parti'r eglwys neu'r ardal leol, ac os bydd pobl ddieithr wedi galw heibio i ganu carol, yna fe ddaw eu cyfle hwy. Os oes mwy nag un parti lleol, fe fydd un o'r rheini yn cloi. Mae'n rhaid cofio hefyd mai'r rhai sy'n canu yn y cylch cyntaf, a dim ond rheini, sydd i ganu yn yr ail gylch. Er bod trefn y cylch cyntaf yn anffurfiol, mae'n rhaid dilyn union drefn y cylch cyntaf wrth ganu yn yr ail gylch. Mae'n hollol anarferol hefyd i ailganu carol. Os oes rhywun wedi canu'r garol yr oeddech chi'n bwriadu ei chanu, yna ddylech chi ddim canu'r garol honno eto (yn alaw nac yn eiriau). Canwch garol arall. Nodwedd ddiddorol ar y gwasanaeth plygain yw'r arfer o ganu'r Garol Fawr, neu Garol y Swper, ar ddiwedd y gwasanaeth. Mae'r dynion sydd wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth yn dod at ei gilydd wrth yr allor i ganu'r garol hon gyda'i gilydd, eto'n ddigyfeiliant, ac mae'n swnio'n wefreiddiol. Os nad ydych chi erioed wedi bod mewn gwasanaeth plygain, dyma'ch cyfle. Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso ichi gysylltu: rhiannon.ifans@lamp.ac.uk neu ffoniwch 01970 828719

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Cor Cardi-Gân

Ar nos Fercher yr 2il o Fedi cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Côr. Etholwyd swyddogion newydd fel a ganlyn:

Arweinyddes – Siw Jones, Cyfeilyddes – Heledd Williams, Cadeirydd - Dai Scourfield (07791 886613), Is-Gadeirydd – John Penri Jones, Ysgrifennydd – Breian Davies (07976 298015), Trysorydd – Neris Davies, Trysorydd Tripiau – Nia Davies, Llyfrgellydd – Rhian Lloyd, Gohebydd y Wasg – Haf Hughes

Cafwyd y dyddiadur allan er mwyn derbyn rhai gwahoddiadau a oedd wedi dod i law. Aethpwyd i gefnogi digwyddiadau Apêl y Gors i godi arian tuag at Ymchwil Cancr ar y 18fed o Fedi. Buom yn perfformio yng Nghymanfa Ganu dathlu Clwb Ffermwyr Ifanc Capel Iwan nos Sul 27ain o Fedi. Ar y 9fed a'r 10fed o Hydref cymerwyd rhan yn Pasiant Cwmni'r Gobaith yn Theatr Felinfach lle roedd sawl aelod o'r côr yn cymryd rhannau blaenllaw; bu'r ddwy noson yn llwyddiant mawr. Byddwn yn cynnal noson yn Capel Cellan ar nos Sul y 15fed o Dachwedd ac yn canu Carolau yn Aberaeron ar y 27ain o Dachwedd.

Mae'r Côr wedi bodoli ers deg mlynedd eleni ac mae cynlluniau ar y gweill i ddathlu mewn steil! Rydym eisoes wedi bod i Gwrs Rasys Ffoslas am ddiwrnod o hwyl a chymdeithasu. Cynhelir Cinio Dathlu nos Sadwrn 7fed o Dachwedd yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron am 7 o'r gloch a cheir adloniant gan Dewi Pws a Radwm dan yr enw 'Swshwn fach'. Estynnir croeso cynnes i gyn aelodau i ymuno â ni. Ym mis Ebrill bydd yna Gyngerdd Mawreddog yn Theatr Felinfach pan fydd y Côr ac Aelodau unigol yn cymryd rhannau amrywiol. Gobeithio y gwnewch chi ymuno â ni yn y dathliadau. I archebu tocynnau i'r Ginio cysylltwch naill ai â Dai Scourfield neu Breian Davies.

Cynhelir ymarferion yn wythnosol am 8 o'r gloch naill yn y Gwndwn ar Gampws y Theatr ar nos Fercher, neu yn Neuadd Goffa Felinfach ar nos Iau. Mae yna groeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni unrhyw bryd, ond rhaid i chi fod yn 18 oed, ac, wrth gwrs yn mwynhau canu! Am wybodaeth bellach cysylltwch â Dai neu Brei.

Plant Mewn Angen

Tachwedd 20fed

Yn casglu fel arfer yn Llambed

9:00y.b. – 6:30y.h.

Gohebiaeth Clonc

Annwyl Olygydd

Rwyf ar hyn o bryd yn paratoi llyfr sy'n seiliedig ar fy ymwneud â'r Urdd 'Yfi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da' gyda'r prif ffocws ar gofnodi stori ymgyrch Mistar Urdd. Cyhoeddir y gyfrol yn ystod mis Ebrill 2010, mewn da bryd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion a gynhelir y flwyddyn nesaf yn Llanerchaeron.



Byddwn yn gwerthfawrogi derbyn unrhyw luniau gan eich darllenwyr yn ymwneud ag ymgyrch Mistar Urdd gyda'r posibilrwydd o'u defnyddio yn y gyfrol. Mae deunydd sy'n perthyn i'r cyfnod o 1976 i 1980 o ddiddordeb arbennig ond gall lluniau mwy diweddar hefyd fod yn ddefnyddiol. Byddai disgrifiad byr o'r lluniau yn gymorth.

Mae angen i'r lluniau gyrraedd y cyhoeddwyr cyn mis Rhagfyr 2009 naill ar e-bost ylolfa@ylolfa.com neu drwy'r post at: Y Golygydd, Y Lolfa, Talybont, Ceredigion SY24 5HE.

Diolch ymlaen llaw.

Wynne Melville Jones

Llanfihangel Genau'r Glyn

"Blas o Geredigion"

Mae yna galendr ar gyfer 2009 ar werth sydd hefyd yn llyfr rysait! Mae'r elusen hosbis leol, Ffagl Gobaith , wedi cynhyrchu calendr sy'n cynnwys 12 rysait a roddwyd yn rhad iddynt gan gogyddion rhai o fwytai gorau Ceredigion. Mae 12 bwyty wedi cyfrannu rysait y mis –yn gyrsiau cyntaf, prif gyrsiau a phwdinau. Mae'n anrheg ddelfrydol, yn dod mewn amlen ac yn rhwydd i'w phostio i ffrindiau a pherthnasau sy'n alltud o Geredigion. Mae'r calendr yn costio £5 ac ar gael o swyddfa'r elusen yn 10 Stryd y Popty, Aberystwyth 01970 617042 – pris bach i'w dalu i gael rhannu rhai o gyfrinachau coginio goreuon Ceredigion.

Cân i Gymru

Mae cyfnod cyfansoddi Cân i Gymru 2010 wedi cyrraedd, ac eto eleni rydym yn chwilio am gyfansoddwyr mwyaf addawol Cymru. Llynedd cawsom ymateb rhagorol, gyda nifer o dalentau newydd yn ymgeisio am y brif wobr o ddeg mil o bunnau.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddech chi'n ein helpu i ledu'r gair fod y cyfnod ymgeisio eleni yn rhedeg o 15 Hydref hyd 11 Rhagfyr. Rydym yn croesawu caneuon gwreiddiol o bob math, gan obeithio y bydd diddordeb gan rai o'ch darllenwyr i roi cynnig arni.

Dyma'r gwobrau ariannol sydd ar gael i'r sawl sy'n llwyddiannus:

1af - £10,000

2il - £2,000

3ydd - £1,500

Gwobr arbennig - £500

Deg gwobr o £100 am gyrraedd y rhestr fer estynedig.

Am fwy o wybodaeth, rheolau llawn y gystadleuaeth a ffurflen gais ewch i www.s4c.co.uk/canigymru neu cysylltwch â'r tîm cynhyrchu yn uniongyrchol: e-bost canigymru2010@thepopfactoy.com

Ffôn: 01443 688530

Gyda diolch,

Ffion Humphries

Avanti

Medal Syr Goffa Syr Thomas Parry-Williams Er Clod

Er mai ychydig wythnosau'n unig sydd wedi mynd heibio ers Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau, mae'n bryd edrych ymlaen at 2010 ac annog pobl i gymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd, a gynhelir yn Y Gweithfeydd, Glyn Ebwy o 31 Gorffennaf i 7 Awst y flwyddyn nesaf. Rydym eisoes yn chwilio am enwebiadau ar gyfer Medal Goffa Syr Thomas

Parry-Williams, a enillwyd eleni gan Miss Haf Morris o Landegfan, Ynys Môn. Rhoddir y Fedal yn flynyddol i anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifanc mewn ardal neu gymdogaeth.

Bu Syr T.H. Parry-Williams yn gefnogwr brwd i'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn Awst 1975, yn dilyn ei farwolaeth ychydig fisoedd ynghynt, sefydlwyd cronfa i goffáu'i gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Eisteddfod.

Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un yr hoffech eu henwebu ar gyfer Medal Syr T.H. Parry-Williams yn 2010, cysylltwch ag Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol ar 029 2076 3777 neu drwy e-bostio gwyb@eisteddfod.org.uk. Gallwch hefyd ofyn am ffurflen enwebu drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

Y dyddiad cau ar gyfer pob ffurflen enwebu yw 31 Ionawr 2010. Cyflwynir y Fedal mewn seremoni arbennig ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod.

Yn gywir iawn,

Hywel Wyn Edwards

Trefnydd

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985

Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni

Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambed

Ffon: 423300 Ffacs: 423223

mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR. COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol. Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llambed

☎ 01570 422206 🖷 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher

01570 481230 / 07967 559683

Yn y Gegin gyda Gareth

"Dewch draw am ddanteithion melys o dun."

Wrth i'r Gaeaf agosáu a'r dewis o ffrwythau ffres ar eu gorau yn lleihau – beth am droi at y tuniau sy'n y cwpwrdd a'r pantri i greu pwdin gwahanol.

Efallai bod ffrindiau neu deulu yn dod draw a bod angen pwdin syml blasus i swper, heb ormod o ffws. Efallai bod y ffrwythau tun heb gael llawer o sylw yng nghegin 'Clonc'. Cofiwch fod ffrwythau tun yn llawer mwy na phethe i'w gorchuddio â hufen neu eu cuddio yng ngwaelod treiffl.

Rhowch gynnig arni, a gobeithio y cewch chi a phawb arall fwynhau 'pwdin o'r pantri'. Byddaf nôl 'da chi y mis nesaf gyda 'Lledrith y Dolig i'r Gegin!'

Hwyl fawr,
Gareth.

Tarten Fricyll.

Cynhwysion

375 gm o does pwff wedi'i rolio'n barod
175 gm marsipan
3 llond llwy fwrdd o hufen dwbwl
2 dun (410gm) bricyll wedi'u haneru mewn sudd
Ychydig fêl
2 owns o gnau almwn wedi'u haenu (flaked)

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200º C 400ºF Nwy 6. Dadroliwch y toesyn a rhowch mewn tun pobi. Darniwch y marsipan a rhowch mewn prosesydd gyda'r 3 llwyaid o hufen i wneud past. Gorchuddiwch y toes gan adael 3cm o amgylch yr ochrau.
2. Hidlwch y bricyll; rhowch y bricyll â'r ochr wedi ei dorri i fyny. Taenwch y mêl dros y cyfan. Coginiwch am 15 i 20 munud nes yn euraid. Rowch y cnau almwn dros y cyfan a gweinwch mewn sgwariau.

'Pwdin Reis Neis'

Cynhwysion

2 dun o bwdin reis
1 tun o mango
3 llond llwy fwrdd o gneuen goco (desiccated coconut)

Dull

1. Cynheswch y reis yn araf mewn sosban.
2. Tostiwch y gneuen goco o dan y gril.
3. Torrwch ychydig o'r mango yn giwbiau a rhowch y gweddill mewn prosesydd gyda'r sudd.
4. Rhannwch y reis mewn disglau, taenwch ychydig o'r saws mango dros bob un. Gorchuddiwch â'r ciwbiau mango a wedyn y cnau coco.

Pwdin Siocled y Goedwig (Ddu)

Cynhwysion

12 sgwaryn bach o gacen siocled (brownies)
Tun o geirios
½ peint o hufen dwbwl
Ychydig 'rum'
Ychydig siocled plaen wedi'i gratio

Dull

1. Rhannwch y cacennau siocled rhwng 4 gwydr unigol.
2. Rhowch y 'rum' a'r ceirios drostynt.
3. Plygwch ychydig sudd y ceirios i'r hufen a rhowch dros y cyfan.
4. Addurnwch gyda'r siocled.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

MiS y PaPUr NeWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Pwy fydd yma ...?

Ro'n i'n sylwi fod un o ddarlithoedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cael ei chyhoeddi – yn dychmygu sut le fydd yng Nghymru tua 2050. Dwn i ddim a oedd hi'n sôn am Lanbed ... ond mi ddylai.

Allwch chi ddychmygu sut le fydd yma ymhen deugain mlynedd arall, pan fydd Elin Jones newydd ymddeol ar ôl chwe thymor yn Brif Weinidog Cymru? Honno, wrth gwrs, ydi'r ail swydd bwysica' yn y wlad, ar ôl yr Arlywydd.

Un peth sy'n gwbl sicr, mi fydd yna bedwar car ar un o'r rowndabowts bach yna yng nghanol y dre', yn aros i'r naill a'r llall symud. Maen nhw wedi bod yno ers tua 2025.

Efallai y bydd lefel y môr wedi codi a phawb o ardal Clonc yn mynd draw i Felin-fach i ymdrochi. Ac, yn yr haf, mae pier Talsarn yn wirioneddol werth ei weld.

Mae'n siŵr y byddech chi'n licio gwybod be ydi teitl Pantomeim Felin-fach yn 2050, ond mae yna broblem. Maen nhw wedi bod yn ychwanegu un gair at yr enw bob blwyddyn ers 2010 ac, felly, erbyn hyn, mae'n llawer rhy fawr i ffitio ar y posteri.

Ond mi alla' i ddweud wrthoch chi mai pantomeim teyrnged i'r hen Euros Lewis ydi hi a'i fod yntau am wneud ymddangosiad cameo ar y llwyfan. Mae'n sôn am fuddugoliaeth fawr pobol Dyffryn Aeron yn llwyddo i wrthwynebu estroniaid oedd eisiau dinistrio'r ganolfan ofod leol.

Dyfodol Clonc

Y newyddion da? Fydd dim ffonau symudol yn bla o gwmpas y lle. Na, mi fydd meddwl yn ddigon. Mi fydd gan bawb ohonon electrodes yng nghroen ein pennau i fesur y tonnau trydanol yn ein hymennydd ni. Mi fyddan nhw'n dehongli be'r yden ni'n ei feddwl ac am ei ddweud, ac yn trosglwyddo hynny i electrodes pawb arall.

Dyna sut y bydd Clonc yn cael ei drosglwyddo hefyd. Fe fydd Cadeirydd Clonc yn mynd i eistedd ar ben to Neuadd y Dref ac yn anfon yr holl newyddion tros donnau'r awyr at bawb, gan gynnwys yr alltudion o Lanbed sy'n byw yn Awstralia, yr Unol Daleithiau a'r lleuad.

Mae'n anodd dweud gydag amaeth. Ond fydd ffermwyr ddim yn defnyddio'r beiciau pedair olwyn erbyn hynny. Fyddan nhw'n gallu gwneud y cyfan yn eu slipars o flaen y tân, gan bwyso botwm i odro fan hyn ac un arall i gneifio'r defaid. Ond, wrth gwrs, mi fydd bywyd yn galed.

Hen ffermwyr ifanc

Gan fod pawb bellach yn byw cymaint yn hŷn, mae'r CFfI hefyd wedi gorfod newid. Yr oed aelodaeth bellach ydi 10 - 75 ac mae ganddyn nhw hawl i gael tri chyn-aelod sydd dros y 100. Mae'n anodd cadw trefn ar y rheiny, meddai Elonwy yn Llanwenog.

Piti am yr ysgolion hefyd, a'r cyngor sir wedi gwario cymaint arnyn nhw yn ôl ym mlynyddoedd cynnar y ganrif. Aros gartre' y mae plant erbyn hyn a chael eu haddysg drwy gyfrifiadur. Dydyn nhw ddim yn taflu awyrennau papur ar draws y dosbarth bellach, dim ond anfon rhyw firws compiwtar i fynd ar nerfau'r athrawon.

Mae'r capeli, wrth gwrs, yn ffynnu – a'r eglwysi hefyd. Fuodd yna ddim diwygiad, ond mi benderfynodd pawb mai'r peth gorau oedd credu mewn dim ac wedyn roedd pawb yn aelodau. Ac wedyn roedd pawb ar eu hôl hi efo'u cyfraniadau, yn hytrach na dim ond rhai.

I Brifysgol Goffa Medwin Hughes y bydd y rhan fwya' o fyfyrwyr lleol yn mynd bellach, yn enwedig ar ôl iddi lyncu'r Coleg Ger y Lli. A pheth braf ydi gweld tîm baseball y coleg yn llwyddo cymaint yn erbyn gweddill colegau'r Ivy League, fel Harvard a Yale. Yn naturiol, mae'r rhai sy'n methu â chael lle yn Llanbed yn gorfod setlo ar Rydychen neu Gaerdydd.

Ond rhag ofn i chi feddwl fod popeth yn newid – dyma'r newyddion da. Mi fydd yna draffic leits a gweithwyr yn gwneud twll yn Ffordd y Coleg.

TOCYNNAU EISTEDDFOD YR URDD CEREDIGION 2010

Bydd tocynnau ar gyfer yr Eisteddfod ar werth **1 Rhagfyr 2009.** Mae'r manylion ar wefan www.urdd.org/eisteddfod a bydd modd prynu'r tocynnau naill ai ar y wefan neu ffonio 0845257 1639.

O safbwynt digwyddiadau gyda'r hwyr, cynhelir y Cyngerdd Agoriadol yn y Pafiliwn ar nos Sul 30 Mai, cyngerdd ar y cyd gyda S4C. Nos Fawrth a nos Fercher bydd y sioe ysgolion cynradd yn y Pafiliwn o dan gyfarwyddyd Cwmni Theatr Felinfach ac mae'r sioe uwchradd o dan gyfarwyddyd Cwmni Theatr Arad Goch. Cynhelir y sioe uwchradd yn Theatr Felinfach, amryw o berfformiadau yn ystod y cyfnod 28 Mai-1 Mehefin. Yn y Pafiliwn nos Lun bydd cystadleuaeth caneuon actol blwyddyn 6 ac iau gyda chystadlaethau ieuenctid ar y nos Iau. Cystadlu sydd hefyd nos Wener gyda'r cerddorfeydd a'r bandiau gyda'r aelwydydd yn brwydro am y gorau ar y nos Sadwrn olaf.

urdd.org

Sarn Helen

Roedd hanner marathon Dale a 10k Bae Abertawe yn cael eu cynnal yr un diwrnod, a dyma ganlyniadau hanner marathon Dale: 3ydd dynion 40, Mark Dunscombe 1 awr 25 munud 51 eiliad; Gareth Jones 1 awr 36 munud 36 eiliad; Caryl Davies 1 awr 57 munud 16 eiliad; Jan Jones 2 awr 5 munud 12 eiliad; Allen Watts 3 awr 4 munud 20 eiliad. 10K Bae Abertawe: Glyn Price 34 munud 16 eiliad; Huw Rowcliff 40 munud 5 eiliad; Huw Price 40 munud 27 eiliad; Gethin Jenkins 42 munud 26 eiliad; Simon Hall 42 munud 3 eiliad; Dee Jolly 42 munud 55 eiliad; David Thomas 45 munud 10 eiliad. Aeth y rhedwyr i ras hwyl Llanwenog, Glyn Price yn ennill y ras mewn 34 munud 51 eiliad ac yn gyntaf vet 40, 2il a 1af dynion 50 50 munud 26 eiliad, 3ydd a 1af agored Haydn Lloyd 40 munud 21 eiliad, 4ydd -2il agored 41munud 8eiliad, 5ed - 2il dynion 40 Huw Price, 6ed -2il dynion 50 Peter Davies, 7fed -3ydd agored Andrew Edgell 43munud 26 eiliad, 8 Eric Rees 43 munud 43 eiliad, 10fed -3ydd dynion 40David Thomas 44 munud 6 eiliad, 11 Trystan Davies 45 munud 41 eiliad, 12 Gareth Jones 45 munud 50 eiliad, 14 -3ydd dynion 50 Lyn Rees 47 munud 13 eiliad, 16 -2il agored Caryl Davies 48 munud 24 eiliad, 19 -2il menywod 35 Jan Jones 52 munud 51 eiliad, a 24 Allen Watts 78 munud a 38 eiliad. Ras y Plant dan 11 - 1af Iwan Evans. Merched dan 11 - 1af Nansi Doyle, 2il Sophie Herron, 3ydd Ceris Purrill, a dan 16 - 1af Rhian Jones, 2il Natalie Jones, 3ydd Haf Purrill.

Ddydd Sadwrn aeth tri ar ddeg o redwyr y clwb i Lanberis i Farathon Eryri. Mae'r ras yma yn cael ei disgrifio fel ras galetaf Ewrop. Ar ddiwedd y dydd daeth anrhydedd i'r clwb pan enillodd ddau o'r rhedwyr eu categori, Murray Kisbee yn gyntaf yn y dynion 60, a Monica Barlow yn cipio y wobr gyntaf menywod 55. Hefyd, buodd S4C yn dilyn paratoadau Gareth a Jan Jones o'r clwb. Cafodd Glyn Price farathon ardderchog ac yn gorffen yn safle 16, ond yn colli'r drydydd wobr vet 40 o ddau ddeg eiliad, ei amser 3 awr 1 munud a 54 eiliad. 61 - Mark Dunscombe 3 awr 21 munud 44 eiliad, 104 - Huw Price 3 awr 28 munud 48 eiliad, 120 - Murray Kisbee 3 awr 31 munud 33 eiliad, 146 - Haydn Lloyd 3 awr 35 munud 16 eiliad, 280 - Eric Rees 3 awr 50 munud 17 eiliad, 339 - David Thomas 3 awr 55 munud 49 eiliad, 656 - Monica Barlow 4 awr 16 munud 42 eiliad, 815 - Gareth Jones 4 awr 29 munud 56 eiliad, 824 - Caryl Davies 4 awr 30 munud 51 eiliad, 1056 - Jan Jones 4 awr 52 munud 42 eiliad, 1215 -Gudrun Jones 5 awr 22 munud 28 eiliad ac yn 1264 - Dinah Jones 5 awr 40 munud 35 eiliad.

Bydd Ras Y Mast yn cael ei chynnal ddydd Sul Tachwedd 29 yn Blaenwern, Llanybydder. Ras y plant am 12-30yp ac 1 o'r gloch i'r oedolion - croeso i bawb.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Daeth newyddion da i'r gwasanaeth iechyd ar draws Ceredigion yn ystod mis Hydref wrth i'r Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, gyhoeddi y byddai'n dileu dyledion hanesyddol Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd y dyledion wedi eu creu cyn i gorff iechyd Hywel Dda ddod i fodolaeth gan Ymddiriedolaethau Iechyd Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro, gyda'r ddwy olaf yn bennaf gyfrifol am y rhan helaeth o'r £40.469 miliwn o ddyled. Bydd dileu'r ddyled yn awr yn galluogi'r Bwrdd Iechyd newydd i ganolbwyntio ar fuddsoddi yn ei wasanaethau heb orfod cadw llygad ar yr orddrafft!

Bydd Prifysgol Llanbedr Pont Steffan hefyd mewn sefyllfa tipyn cryfach yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg, Jane Hutt AC, y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £14.03 miliwn tuag at gefnogi uno'r sefydliad gyda Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol ac yn tanlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i ddyfodol y Brifysgol yn Llambed. Mae'r brifysgol yn cyfrannu'n helaeth at fywyd addysgol Ceredigion ynghyd ag i'r economi leol, ac fe dynnais i sylw'r Gweinidog Addysg at bwysigrwydd y sefydliad wrth i ni gwrdd i drafod dyfodol y Brifysgol.

Mynychais gyfarfod yn ogystal yn ystod mis Hydref gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, i drafod yr angen i ailagor Cyffordd Tesco yn Aberteifi. Mae'r Gyffordd wedi bod ar gau ers nifer o flynyddoedd ac argymhelliad y Gweinidog Trafnidiaeth blaenorol oedd y dylid ei chau yn barhaol. Fodd bynnag, ychydig wythnosau wedi ein cyfarfod, fe dderbyniais lythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog yn cadarnhau ei fod yn bwriadu caniatáu i'r Gyffordd gael ei hailagor drwy ddefnyddio goleuadau traffig. Mae hyn yn sicr yn ddatblygiad i'w groesawu gan y bydd modd i draffig sy'n teithio o'r gogledd tuag at Aberteifi gael mynediad i'r dref heb orfod teithio drwy'r canol.

Yn olaf, roedd yn faint enfawr i dderbyn gwobr Pencampwr Amaethyddiaeth gan gylchgrawn y Farmers Weekly yn ddiweddar yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Rwy'n falch iawn bod y gymuned amaethyddol wedi penderfynu cydnabod fy ngwaith dros y diwydiant amaethyddol ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i wasanaethu amaethwyr a chymunedau gwledig Ceredigion a Chymru.

Llanybydder

Merched y Wawr

Dechreuwyd y flwyddyn ar nos Lun Medi 28ain pan gyfarfu yr aelodau yn festri Aberduar am 7.30y.h. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd Caroline Davies. Cafwyd noson gwis amrywiol a mwynhawyd clonc dros gwpaned o de a bisgedi a baratowyd gan Ann Milcoy a Bet Davies.

Ar nos Lun Hydref 19eg daeth Manon ac Alwen atom i ddangos sleidiau o'u taith i Kenya ym mis Awst eleni gyda chlybiau ffermwyr ieuanc Prydain Fawr. Roedd yn noson hwyliog a diddorol iawn ac atgoffwyd pawb am dlodi ac anghenion dwys un o wledydd tlotaf y byd. Diolchwyd i'r ddwy gan Megan Jones. Gwnaed y te gan Jean Davies a Gwen Jones. Rhoddwyd y raffl gan Bet Davies ac fe'i enillwyd gan Catrin James. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 30ain.

Priodas

Llongyfarchiadau i Rhian Bellamy, Hendy â James Powell o Faesycrugiau a briododd yng Nghapel Brynteg ar ddydd Sadwrn, Hydref 10fed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Sian Jenkins, Gerynant, Llanybydder ar lwyddo i gwblhau ei hyfforddiant gyda'r Llynges Frenhinol yn ddiweddar. Oherwydd hynny, mae nawr yn aelod llawn o'r llynges ac yn dilyn ôl traed ei Thad, sef Tydfor Jenkins, Cwrtnewydd a fu hefyd yn gwasanaethu ar y môr yn ystod Rhyfel y Falklands.

Ar ôl gorffen ei hyfforddiant sylfaenol ar HMS Rayleigh, Plymouth, treuliodd Sian bedair wythnos ar ddeg yn derbyn hyfforddiant fel arbenigwr arfau ar HMS Collingwood yn Fareham, Swydd Hampshire. Bellach mae'n gymwys i saethu Reiffl Ymosod SA80, trin System Radar Amddiffyn Llongau a chyfathrebu â llongau a hofrenyddion eraill, ond nid trwy gyfrwng y Gymraeg yn anffodus!

Bydd yn ymuno â'i llong gyntaf, HMS Ocean ddiwedd mis Hydref, sef llong fwyaf y Llynges Frenhinol. Llong danfor ymosodol yw hon a caiff ei defnyddio i drosglwyddo'r Royal Marines i fannau peryglus o gwmpas y byd. Mae'n edrych ymlaen at ei thaith dramor gyntaf ychydig wedi'r Nadolig.

Dymuna ei theulu a'i ffrindiau bob llwyddiant iddi yn ei gyrfa. Maent yn edrych ymlaen yn fawr at glywed am ei hanturiaethau ar ôl iddi ddychwelyd.

Noson Lawen

Cynhaliwyd Noson Lawen nos Sadwrn 17eg o fis Hydref yn y Llew Du a oedd wedi ei drefnu gan bwyllgor lleol Ymchwil y Cancr. Arweinydd y noson oedd Lyn Jenkins, Brynrhosyn. Yr artistiaid oedd y grŵp Montre a'r storïwr a'r digrifwr Alun Jenkins, Pontarfynach. Cafwyd noson hwylus iawn yn eu cwmni a phawb wedi mwynhau.

Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Gerwyn Thomas, Cross Roads, Llanllwni. Diolch iddynt am eu rhodd hael at yr achos.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd - 1af £50 A Rowlands Tycapel Silian, 2 £30 Sally James Cornel, 3ydd £20 Elonwy Davies Gwendraeth, 4ydd £10 Mary Thomas Ffosffald Uchaf, 5ed £10 Ann Coughlan Bryn Newydd. Enillydd enw ar y tedi, Dilwen Watkins. Enillwyr Raffl y Noson - Dai Phillips, Doris Lloyd, Joyce Thomas, Edgar Williams, Mathews Tanygroes a Doreen Davies. Rhoddwyd llawer o nwyddau i'w gwerthu hefyd.

Derbyniwyd siec am £600 gan aelodau clwb pêl-droed ieuenctid y pentref drwy law Lucy Jones a Kelvin James. Mae Banc Barclays hefyd wedi noddi'r noson yn y Clwb Rygbi i'r swm o £715 trwy eu cynllun punt am bunt trwy law Angela Thomas. Diolchodd Aneurin Davies, cadeirydd y gangen leol i Gerwyn ac Anwen Thomas am eu rhodd hael. Diolchodd hefyd i bawb a wnaeth noddi'r noson, am y gwobrau raffl a'r nwyddau i'w gwerthu ac i bawb a wnaeth gefnogi ar y noson.

Daeth cyfanswm elw'r noson hon a'r noson flaenorol yn Clwb Rygbi yng nghwmni Dai Reynolds ym mis Awst yn £5,323. Diolch yn fawr.

Cymdeithas Diabetic Llanybydder

Cynhaliwyd Cinio Flynyddol Cymdeithas Diabetic Llanybydder a'r cylch yn y Llew Du Llanybydder nos Wener ail o Hydref 2009. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd ac estynnwyd cydymdeimlad dwys â theulu'r diweddar Mrs Eva Davies a fu yn aelod ffyddlon ers y dechrau a hefyd â theulu'r diweddar Len Smith - yntau hefyd yn aelod ffyddlon. Ar nodyn hapusach cyhoeddwyd fod £500 wedi ei dderbyn gan Mr Brian Potter, Cwmsychbant a oedd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar; £307 gan Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann; £242 gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl blant,

Sut ydych chi gyd? Gobeithio eich bod chi i gyd yn go lew ac wedi osgoi'r annwyd diddiwedd yma. Yn anffodus, mae Joni Jacos a minnau yn gors o annwyd. Er i'r Doctor alw does fawr o hwyl ar yr un ohonom. Gwely cynnar amdani glei! Diolch ichi gyd am ddanfon eich gwaith lliwio mor brydlon.

Fe wnaethon godi fy nghalon, ac i ddweud y gwir rwy'n teimlo tipyn bach yn well erbyn hyn. Mae clod mawr yn mynd i Laura Gaskell o Ffosyffin, Miriam Butcher o Gaerdydd, Sioned Fflur ac Elain Fflur o Lanybydder, Beca Jenkins o Gwmsychbant a Lauren McLeary o Silian. Ond yn dod i'r brig y mis hwn am waith arbennig o daclus mae Owen Heath, 7 Bryn yr Eglwys, Llambed. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfon ataf erbyn dydd Llun, 23ain o Dachwedd.

Hwyl am y tro,



Enillydd y mis!

Owen Heath



Enw:

Cyfeiriad:

Colofn y C.Ff.I.

Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gar 2009

Nos Wener, 9fed Hydref 2009, nos Wener 16eg Hydref a dydd Sadwrn, 17eg Hydref 2009 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Bu yna gystadlu brwd gyda C.Ff.I. Penybont yn fuddugol ac yn ennill y darian, C.Ff.I.Cynwyl Elfed yn ail a C.Ff.I. Llanllwni yn drydydd.

Yng nghystadleuaeth Tarian y Gwaith Cartref C.Ff.I Llanfynydd oedd yn 1af, Dyffryn Tywi yn 2ail a Capel Iwan yn 3ydd.

Mrs Devida Lewis a'i mab Mr Berian Lewis oedd y beirniaid cerdd, Mr Aled Williams oedd beirniad yr Adran Ysgafn, Mrs Ann Evans yr Adran Lefaru, Miss Bronwen Morgan oedd y beirniad gwaith cartref, Mrs Tina Wilson - beirniad yr adran gelf, Ms Nia Rowlands - beirniad adran y dawnsio disgo a Mr Aron Davies - beirniad y gystadleuaeth stepio. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am eu gwasanaeth arbennig.

Cyfeilydd yr Eisteddfod eleni eto oedd Mr Geraint Rees. Bellach mae Geraint wedi bod yn cyfeilio yn Eisteddfod y Mudiad ers pymtheg mlynedd ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei gefnogaeth barod ac amhrisiadwy i'r Mudiad. Cyflwynwyd plât i nodi'r achlysur arbennig yma ac i ddangos gwerthfawrogiad holl aelodau'r sir yn ystod yr Eisteddfod.

Arweinyddion yr Eisteddfod eleni oedd Mr Michael James, Mr Owen Davies, Miss Diane Mosey, Mrs Llinos Evans a Miss Meinir Jones. Mrs Llinos Jones oedd yng ngofal ysgrifennu'r tystysgrifau. Mrs. Jane Morgan a Mrs Llinos Jones oedd yn cadw'r sgôr, a diolch i bawb am eu gwaith arbennig. Diolch yn ogystal i holl Swyddogion y Sir a ffrindiau'r Mudiad am eu gwaith wrth y drws a thu cefn i'r llwyfan.

Gwestai yr Eisteddfod nos Wener 9fed Hydref oedd Miss Meinir Evans, Cwmfran, Cilycwm. Gwestai nos Wener 16eg Hydref oedd Colin & Hilary Evans, Gwarwenallt, Bancyfelin a Gwestai dydd Sadwrn 17eg Hydref oedd John & Gloria Davies, Penrheol, Rhydaman. Diolch iddynt oll am eu rhoddion hael iawn tuag at gyllid Ffederasiwn y Sir.

Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gerdd ac yn ennill Cadair y Sir eleni oedd Mrs Elin Davies, C.Ff.I Capel Iwan. Roedd y gadair eleni yn rhoddedig gan Mr Michael James (Cadeirydd y Sir) a diolch i Mr Eirian George, Ynyscniw, Brechfa am wneud y gadair. Mr. Gethin Thomas oedd yng ngofal Seremoni'r Cadeirio gyda Ffion Jones, C.FF.I Llanfynydd yn canu Cân y Cadeirio a Mr. Hefin Jones, Llanarthne yn canu'r Corn Gwlad.

Miss. Nicola Evans, C.Ff.I Abernant; Miss Ffion Rees, C.Ff.I Llanfynydd; Mr Steffan Evans, C.Ff.I. Llandeilo a Mrs Louise Jones, C.Ff.I Cwmann fu yn cyfarch y buddugol. Clwb Ffermwyr Ieuainc Llanfynydd fu yn stiwardio trwy gydol y dair noson a diolch i Amaethwyr Caerfyrddin a Phumsaint Cyf. am eu cefnogaeth fel noddwyr unwaith yn rhagor.

Diolch i Miss Meinir Jones , Llysgenhades y Mudiad a'r Dirprwyon am eu gwaith yn paratoi lluniaeth trwy gydol yr Eisteddfod.

Canlyniadau'r Penwythnos

Stori a Sain 26oed neu Iau - Rhian Davies & Owain Davies, Llanllwni 1af, **Unawd 21 oed neu Iau** - Aled Thomas, Cwmann, 2ail; **Llefaru 26 oed neu Iau** – Bethan Griffiths, Dyffryn Cothi 1af; **Unawd 26 oed neu Iau** - Owen Davies, Dyffryn Cothi, 2ail; **Unawd Offerynnol 26 oed neu Iau** - Carwen George, Dyffryn Cothi cydradd 3ydd; **Llefaru 21 oed neu Iau** - Rhian Davies, Llanllwni, 1af; **Parti Llefaru – 26 oed neu Iau** – Llanllwni 1af; **Adroddiad Digri 26 oed neu Iau** - Rhian Davies, Llanllwni 2ail; **Ensemble Offerynnol 26 oed neu Iau** - Mirain Tomos, Delun Davies, Manon Tomos, Dyffryn Cothi 2ail; **Sgets 26 oed neu Iau -** Dyffryn Cothi 1af; **Deuawd Doniol** - Owen Davies & Rhys Richards, Dyffryn Cothi 1af; **Stori fer – 26 oed neu Iau** - Manon Tomos, Dyffryn Cothi, cydradd 2ail; **Cystadleuaeth i aelodau 16 neu Iau** – Siân Elin Williams, Cwmann 2ail; **Celf – 26 oed neu Iau** - Elinor Jones, Dyffryn Cothi 1af; **Rhaglen Clwb 26 oed neu Iau** - Meryl Davies, Llanllwni 2ail; **Brawddeg 26 oed neu Iau** - Anwen Jones, Llanllwni 2ail a Owen Davies, Dyffryn Cothi 3ydd.

Pob lwc i bawb a fydd yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Cymru lan yn Llandudno ar 21ain Dachwedd 2009.

Plant lleol yn cofio y Prifardd T. Llew Jones

Rhai o ddisgyblion a staff Ysgol Llanllwni wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau T. Llew Jones ar y diwrnod cenedlaethol i gofio amdano.

Diwrnod Cofio T Llew Jones yn Ysgol y Dderi gyda'r plant yn portreadu nifer o'r cymeriadau o'r llyfrau a ysgrifennodd iddynt.

Rhai o ddisgyblion a staff Ysgol Cwrtnewydd wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau T. Llew Jones.

Plant Ysgol Llanwnen yng ngwisg rhai o'r cymeriadau a grewyd gan y diweddar T Llew Jones ar ddiwrnod Cofio T Llew Jones.

Rai o blant Ysgol Ffynnonbedr wedi gwisgo lan ar ddiwrnod cofio T. Llew Jones.

Sefydliad y Merched Coedmor yn dathlu 60 mlynedd yng Ngwesty Glyn Hebog. [Gweler yr adroddiad ar dudalen 10].

D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664

CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni

Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Llwyddiant yn y Siarad Cyhoeddus ac yn y byd Chwaraeon

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion a gynhaliwyd yn Felinfach. Tîm Llanwenog, o'r chwith, Menna Williams, Elin Jones, Llyr Davies ac Enfys Hatcher a enillodd dan 21 oed. Enillodd Enfys hefyd gwpan y Cadeirydd Gorau.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion a gynhaliwyd yn Felinfach. Enillydd cwpan y Cadeirydd Gorau dan 26 oedd Lyn Jenkins, Llanwenog.

Clwb Hoci Llanybydder sydd wedi chwarae dwy gêm yn Y Gynghrair newydd sef Cynghrair Adran 4 Y Gorllewin, De Cymru sydd yn cael ei noddi gan Mansel Griffiths a'i Fab. Cafwyd gêm gyfartal yn erbyn Clwb Castell Newydd Emlyn 2-2 gyda'r Capten Heledd Wilson yn sgorio'r gôl gyntaf a Gemma Hope yn sgorio'r llall. Enillodd Llanybydder yn erbyn Clwb Crymych o 3 gôl i 0 gyda Gemma Hope, Tracy Evans a Hedydd Wilson yn sgorio'r goliau. Dechreuad addawol iawn i'r tymor, wir!

Tîm Rygbi Llanbed dan 9 oed yn eu topiau hyfforddi a'u crysau polo newydd a noddwyd yn garedig gan William Jenkins o J. Jenkins a'i Fab, Rose Garage, Tregaron; Gwasanaeth Valet Gary Pugh, a Lyn Lewis o Ganolfan Addurno AAA, Llanbed. Gwnaed y cyflwyniad gan Gary Pugh a Lyn Lewis. Yn y llun hefyd mae'r hyfforddwyr Jeff Evans ac Eirian James.

Cafodd Gareth Morgan Isaac gyfle i chwarae gyda'r golffwraig ryngwladol Rhian Wyn Thomas mewn cystadleuaeth arbennig a gynhaliwyd gan Glwb Golff y Cilgwyn yn ddiweddar.

Ac ar ddiwedd yr ornest am Gwpan Coffa Ann James, gydag aelodau ifanc a golffwyr hŷn yn chwarae mewn parau, Rhian a Gareth a ddaeth i'r brig.

Mae Rhian yn un o gyn-aelodau'r Clwb ac roedd yn dda cael elwa o'i phrofiad a'i chyngor yn ystod y diwrnod.

Yn y llun gwelir tîm trawsgwlad Ysgol Carreg Hirfaen a fu yn llwyddiannus iawn ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd yn Nantyci yn ddiweddar. Llongyfarchiadau arbennig i Mared Owen (canol) a ddaeth yn gyntaf cyfforddus iawn yn ei ras i ferched Blwyddyn 5. Dewiswyd Mared i gystadlu yng Nghynghrair Trawsgwlad Gwent ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle daeth yn bumed yn erbyn merched o dde Cymru a gorllewin Lloegr. Gan iddi berfformio mor rhagorol ym Mhen-y-bont mae Mared yn awr wedi ei dewis i gynrychioli Cynghrair Gwent mewn Pencampwriaethau Rhanbarthol pellach a bydd disgwyl iddi deithio a chystadlu mewn cystadlaethau yng Nghaerfaddon, Bryste, Taunton ac Aberhonddu. Pob lwc Mared – mae gennyt Aeaf prysur iawn o dy flaen!